PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 452 | Hydref 2022



Eglwys Sant Ioan

t.14

Cymdeithas y Penrhyn




t.12



Ffotograffydd ifanc

t.6

## Croeso



Edwina Davies (Warden y Ficer) a Jane Jones (Warden y Bobl) yn croesawu y Parch. D. Lynn Rees (Yr Offeiriad â Gofal) i'r Plwyf. Gweler t. 13



Taith gerdded enwau lleoedd ym mhlwyf Trefeurig - gweler t.6

## Pen-blwydd Arbennig



Dymuna Doreen Davies, Glasfryn, Capel Bangor ddiolch i bawb am y cyfarchion, cardiau a negeseuon a dderbyniodd ar ei phen blwydd yn ddiweddar. Yn y llun mae Doreen a'i gorwyrion.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


CYMRAEG

# dyddiadur

**RHIFYN TACHWEDD Dyddiad cau** Tachwedd 4 **Dyddiad cyhoeddi** Tachwedd 16

**HYDREF 19** Nos Fercher Dafydd Morris Jones – A oes dyfodol i ffermwyr yr ucheldir? Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb am 7.30

**HYDREF 21** Nos Wener Cymdeithas Lenyddol y Garn – noson agoriadol yn festri'r Garn 'Geiriau'n chwerthin: Tegwyn Jones' – gyda'r Athro Geraint H. Jenkins. Bydd y drysau ar agor o 6.30 o'r gloch ymlaen am luniaeth ysgafn, sgwrs a chyfle i ymaelodi, a bydd y sgwrs yn dechrau am 7.30 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb; tâl aelodaeth am y tymor: £5

**HYDREF 22** Dydd Sadwrn Ffair fwyd, diod, crefft Mynyddoedd Cambria yn Nghanolfan Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian Trefnir gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Pentir Pumlumon o 10.00 – 4.00

**HYDREF 22** Nos Sadwrn Ysgol Gerdd Maldwyn yn cyflwyno Y Mab Darogan yn y Neuadd Fawr am 8.00

**HYDREF 28** Nos Wener Meibion y Mynydd yn Dathlu'r deg yng Nghanolfan y Celfyddydau am 8.00

**HYDREF 28** Nos Wener Noson Bingo a Chystadleuaeth Pwmpen wedi'i cherfio yn Neuadd Llanfarian am 7:30yh. Croeso cynnes i bawb. Apêl Sir Nawdd CAFC Ceredigion 2024

**HYDREF 29** Nos Sadwrn. Cofiwch droi yr awr yn ôl

**TACHWEDD 1** Nos Fawrth Bara Caws yn cyflwyno Un nos ola leuad (Caradog Prichard) yn Theatr Felin-fach am 7.30. Tocynnau: 01570 470 697 Canllaw oed: 14+

**TACHWEDD 9-11** Nosweithiau Mercher, Iau a Gwener Ysgol Gyfun Penweddig yn cyflwyno Sŵn y gân yn yr Ysgol am 7.00 yr hwyr. Tocynnau ar werth yn fuan – 01970 639499

**TACHWEDD 15** Nos Fawrth Noson agored Nadoligaidd Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r Cylch yn Neuadd Llanfarian am 7.00. Tocynnau £8 i aelodau, £10 i rhai nad sydd yn aelodau. I gynnwys lluniaeth ysgafn tymhorol (Tal aelodaeth £30 am y flwyddyn)

**TACHWEDD 16** Nos Fercher Noson yng nghwmni'r awdur Geraint Lewis, Aberaeron Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb am 7.30

**TACHWEDD 18** Nos Wener Cymdeithas Lenyddol y Garn 'Llwybrau Gofal: profiadau nyrs' gydag Angharad Jones, Canolfan Addysg Gofal Iechyd Prifysgol Aberystwyth yn festri'r Garn am 7.30

**TACHWEDD 18** Nos Wener Cyngerdd Rhys Meirion yng Nghanolfan y Celfyddydau gyda Elen Meirion, John Ieuan Jones ac Ifan Llywelyn Jones am 8.00

**RHAGFYR 5** Nos Lun Gyrfa chwist Nadolig yr RABI yng Nghlwb Bowlio Machynlleth am 8.00. Mynediad £3 Sgôr uchaf £30


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.



James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

# 30 mlynedd yn ôl



Pwyllgor Cymuned Melindwr a drefnodd i gasglu y cyfanswm o £5,177.24 yn ardal Capel Bangor, Cwmrheidol a Goginan, tuag at Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992. Mr Gwynfor Jones, Cadeirydd; Mrs Heulwen Lewis, Trysorydd; Mrs Iona Jones, Ysgrifennydd; Mrs Beti Daniel, Mrs Delyth Griffiths, Mrs Lyn Jenkins, Mrs Enid Jones, Mrs Aeronwy Lewis, Mrs Gwen Morgan, Mr Geraint Davies, Mr Emlyn Griffiths a Mr Gareth Jones. Roedd Mr Dewi Davies, Mr Maldwyn James a Mr Tom Jones, yr Is-Gadeirydd, yn absennol o'r llun.
Llun: Anthony Pugh (O *Dincer* Hydref 1992)

£5,000 oedd y nod gafodd Melindwr yn 2000/2. Llwyddwyd i gasglu £6,381.22.

# Cylch Cinio Aberystwyth

**Wynebau siriol swyddogion Cylch Cinio Aberystwyth yn ein cyfarfod yn Ngwesty'r Marine yn Aberystwyth yn ein cyfarfod ym mis Medi 2022.**

Y Bardd, yr awdur a'r Golygydd Elinor Wyn Reynolds oedd ein siararadwraig wâdd am y mis. Er mai yn y Rhondda y cafodd Elinor ei geni ystyrir hi yn ferch o Gaerfyrddin ac yno lle roedd ei thad yn un o arbenigwyr cyfreithiol yr heddlu mae wedi bwrw ei gwreiddiau yn ddwfn yn yr hen dre. Bu yn astudio yn y Brifysgol yn Aberystwyth ac yng Ngholeg yr Iesu Rhydychen ond mae erbyn hyn wedi ail gartrefu yng Nghaerfyrddin ac yn weithgar ym mywyd Cymraeg y dre.

Siaradodd am ei nofel gyntaf *Gwirionedd* a sgrifennwyd ganddi am y trawma o golli ei thad. Bu'r cyfan yn brofiad ysgytwol iddi ond hefyd yn gyfrwng ac yn gymorth iddi ddelio gyda'r golled a'r galar, Fe gafodd y gyfrol ei chynnwys ar restr fer Llyfr y Flwyddyn 2020 ac mae'r nofel yn destun cryn drafod yng Nghymru ers hynny.

Roedd y sgwrs yn ddifyr ac yn hwyliog gyda llawer o chwerthin ac yn ysbrydoledig er bod y testun a llawer o'r cynnwys yn cyffwrdd â un o bynciau ac emosiynau heriol a dyfnaf bywyd- marw a cholled a thristwch.

Talwyd y diolchiadau gan Dai Harris a gyfaddefodd iddo fynd yn syth, wedi derbyn y gwahoddiad, i Lyfrgell Aberystwyth i ymchwilio i'r awdur a'i gwaith a chael ei swyno'n llwyr o fynd ati i ddarllen y gyfrol *Gwirionedd*.

Enillydd y raffl oedd Vaughan Griffiths, Bow Street.

Byddwn yn cyfarfod nesaf yn Nhafarn yr Halfway ar nos Wener Hydref 14 am 6.45 y.h. Y gŵr gwâdd fydd Y Dr Rhodri Thomas, Pennaeth Ysgol Gyfun Penweddig. Dewch i ymuno gyda ni.



# CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Medi 2022

**£25** (Rhif 176) Lewis Evans, Deilyn, Capel Dewi
**£15** (Rhif 191) Mair England, Pantyglyn, Llandre
**£10** (Rhif 62) Meinir Lowry, Rhoslan, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol ym Mhwyllgor Sioe Capel Bangor. Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com

# Cyngor Cymuned **Geneur Glyn**

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor:** cyngorcymunedgeneurglyn communitycouncil.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 26.09.2022 yn Ysgoldy Bethlehem, 'roedd pawb yn bresennol. (Os dymunwch fod yn bresennol mewn unrhyw cyfarfod, cysylltwch a'r Clerc).

**Trafodwyd**:

- Croesawyd Andrea Hughes i'r cyfarfod i rannu gwybodaeth am Borth 2030 – sydd yn anelu at ddechrau a hwyluso trafodaethau a all arwain at ddyfodol ffyniannus, hapusach, cynaliadwy a gwyrddach i'r gymuned.
- **Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor. Cytunwyd ar daliadau i Afan Construction (ffens a wal y Cwrt Tenis), Costau banc, We Do Tennis (Hyfforddi tenis I plant lleol), Cyflog y Clerc, HMRC (Treth Incwm).
- **Parc a'r Cyrtiau Tenis**: Gwaith yn parhau i ddatblygu'r parc. Syniadau wedi derbyn o'r cymuned. Gwaith i'r cyrtiau wedi cwblhau. Cael gwared o offer chwarae pren wedi pydru.
- **Adroddiad gan y Cyng Hugh Hughes**: Ardaloedd 20mya yn symud mlaen.
- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 24 Hydref 2022 yn Ysgoldy Bethlehem am 7.00yh.


Pauline Lucas:
**clercgeneurglyn@yahoo.com**

## Cymdeithas Brodwaith Cymru









"Gweddw crefft heb ei dawn" yw'r hen ddihareb. Mae'n siŵr ei bod hi'n wir, ond doedd hi ddim yn berthnasol i'r hyn oedd i'w weld yn y Morlan, ddydd Sadwrn, Medi 24ain, pan oedd aelodau Cangen y Canolbarth o Gymdeithas Brodwaith Cymru yn arddangos ffrwyth eu dyfalwch dros y tair blynedd diwethaf. Roedd y digwyddiad wedi ei ohirio ddwywaith oherwydd y pandemig, ond y bore hwn roedd y byrddau, oedd wedi eu trefnu yn ôl pedwar tymor y flwyddyn, yn gyforiog o grefft a dawn, a phob eitem unigol yn tynnu'r llygad a'i ddal.

Crefftau sy'n harddu cartrefi yw maes diddordeb y Gymdeithas Brodwaith. Mae'n ymwneud ag unrhyw fath o waith creadigol gyda nodwydd ac edau a thecstilau, e.e. lâs, crosio, brodwaith clasurol, croesbwyth, mânbwynt, ffeltio, cwiltio, clytwaith – roedden nhw i gyd yma. Eang ac amrywiol oedd testunau'r rhai fu wrthi – adar, blodau, coed, golygfeydd diriaethol a haniaethol, geiriau o farddoniaeth - annisgwyl, a dweud y lleiaf, oedd gweld wynebau Henry Richard a Thomas Hardy wedi eu hatgynhyrchu mewn croesbwyth! Amrywiol hefyd oedd y gwrthrychau gorffenedig yn ddarluniau mewn ffrâm, llieiniau byrddau, teganau meddal, cwiltiau, clustogau, modiwlator (oedd wir), a llawer iawn o bethau eraill cain a mirain.

Yr hyn oedd yn drawiadol ac yn amheuthun am yr arddangosfa oedd nad oedd enw person na lle yn gysylltiedig ag unrhyw waith. Roedd hynny'n rhyddhau'r gwyliwr i werthfawrogi'r gwaith am yr hyn oedd o flaen ei llygaid/lygaid yn hytrach na'i gysylltu â rhywun cyfarwydd neu anghyfarwydd iddi/iddo. Roedd hefyd yn lladd y duedd i gymharu a chreu cystadleuaeth, tuedd anochel ar achlysur o'r fath, a hynny'n ein harwain at wireb arall – "Mae'r gorau yn lladd y da." Gyda'r fath lawnder o bethau da, pa eisiau chwilio am y gorau?

Diolch i Gangen y Canolbarth dan ei chadeiryddes Mrs Betty Jenkins, Carreg Cadwgan, Tal-y-bont, a'i hysgrifenyddes Mrs Eryl Evans, y Ddôl, Llandre, am sicrhau bod y gwaith yma'n cael ei weld gan y cyhoedd. Rhwydd hynt i'r Gymdeithas gyda'i bwriad o gefnogi pobl ifainc sy'n cymryd diddordeb yn y maes drwy gynnig ysgoloriaeth i fyfyrwyr. Am ragor o wybodaeth am hynny cysylltwch â Medwen Charles, ysgrifenyddes genedlaethol Cymdeithas Brodwaith Cymru, ar maes.meini@btinternet.com.

## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Mynwent Aber-ffrwd**
Mae gatiau mynwent Aber-ffrwd yn eu lle o'r diwedd. Diolch I Ann, Gerwyn ac Eurgain Ellis am eu haelioni yn talu am galfaneiddio y gatiau. Mae cyfrifoldeb am y fynwent nawr wedi ei drosglwyddo I ofal Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro.



## Goginan

**Priodas Ruddem**
Llongyfarchiadau i Malcolm a Wendy Davies, Glwysle ar ddathlu eu priodas ruddem ar Fedi y pumed ar hugain. Pob lwc i'r dyfodol.







# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Suliau Madog**
**2.00**
*Hydref*
23 Bugail (Oedfa Gofalaeth) – Capel y Garn 10.00
30 Beti Griffiths

*Tachwedd*
6 Bugail
13 Lyndon Lloyd
20 Bugail
27

**Cwrdd diolchgarwch**
Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch Madog ar 2 Hydref dan ofal ein gweinidog, Y Parchg Ddr Watcyn James. Roedd y capel wedi ei addurno yn hardd gyda blodau a llysiau ar gyfer yr oedfa gan yr aelodau.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymeimlad dwysaf â Elwyna Davies, Tyncwm a'r teulu oll ar farwolaeth brawd Elwyna – Alun Whitlock Williams – yn Calgary, Alberta ar 23 Medi. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich colled drist.

**Marchnad Aberystwyth 10/9/2022**
**Cofnod 2388 (cliriad 97% )**
Masnachu da gyda gwerthu da ar y mamogiaid ond llai o ffermwyr yn chwilio i brynu. Roedd gwerthu yr ŵyn stôr yn ddewisol. Gwerthwyd ŵyn tewion mewn masnach dda gyda'r rhai llai, tenau, yn anodd eu gwerthu.
Prisiau fel a ganlyn:
Defaid lladd (1336) Amcg £52.30. Mwy £110 gan Lewis, Tŷ Llwyd, Pennant
Hyrddod lladd (36) Amcg £73.30 Mwy £150 gan Evans, 16 Cleveland Av, Tywyn
Mamogiaid magu (307) Amcg £65.00 Mwy £135 gan Lewis, Fferm Llanbadarn
Hyrddod magu (9) Amcg £170. Mwy gan Jones, Llety Cynnes
Ŵyn stôr (644) Amcg £65.40. Mwy £108 gan Davies, Llety Ifan Hen
Defaid ac ŵyn (56) Amcg £80.60 Mwy £125 gan Price & Roberts, Troedyrhiw



Fel hyn oedd hi heddiw- ar y cyfan yn well na'r disgwyl.
Diolch i chi brynwyr a chynhyrchwyr am eich cefnogaeth.

24/9/2022.
Cofnod 3125.
Roedd mwy nac arfer ar werth gyda masnachu gwell na'r disgwyl ar y mamogiaid gyda mwy o ffermwyr yn prynu a'r prynwyr arferol i gyd yn bresennol. Roedd y fasnach wyn stôr yn sicr yn fwy dethol gyda masnachu da ar y rhai cryfaf, mwyaf cigog.

Prisiau fel a ganlyn:
Mamogiaid magu (883) Amcg £60.60, Mwy £111 gan Jones, Pengraig, Ystrad Meurig.
Defaid ac ŵyn (187) Amcg £65.60, Mwy £85 gan Pughe, Rhydyraderyn, Glantwymyn.
Defaid lladd (1123) Amcg £46.80, Mwy £160 gan John Williams, Caegarn, Cilcennin
Ŵyn stôr (922) Amcg £62, Mwy £100 gan Williams, Cynnull Mawr, Tal-y-bont.
Hyrddod lladd (10) Amcg £99, Mwy £135 gan Jerman, Cwmpenllydan, Glenbrochan.
Fel hyn oedd hi heddiw: y rhan fwyaf wedi gwerthu a phawb yn hapus.

Sêl hyrddod Cofnod 245
Gwerthwyd 67% gyda amcangyfrif o £350. Roedd prynwyr o bell yn bresennol yn yr arwerthiant hon ddenodd dyrfa dda. Masnachu dethol gyda 15 hwrdd yn gwerthu am dros £500 gyda'r pris uchel o £567 gan Davies, Dolaucoion, Llanbedr Pont Steffan. Arwerthiant hyrddod lwyddiannus ond y prynwyr yn fwy gofalus.
Diolch i'r holl brynwyr a gwerthwyr am eu cefnogaeth. Diolch i'r staff am eu gwaith caled ac i Geraint James am ddod i werthu'r hyrddod ac i Wil Hughes am feirniadu.

**Diolch a gwella**
Dymuna David Evans, Murmur y Coed, Capel Dewi, ddiolch am y cyfarchion a'r cardiau dderbyniodd ar achlysur ei ben blwydd. Bu ei briod Dorothy yn derbyn triniaeth i'w throed yn Ysbyty Bron-glais a da deall ei bod yn gwella ac yn mynd o gwmpas erbyn hyn.

**Prawf gyrru lori**
Llongyfarchiadau i Aneurin Rhos-goch sydd wedi pasio ei brawf i yrru lorri ddechrau'r mis!

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem
Gwefan Cymuned Trefeurig
trefeurig.cymru
- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer
Gwefan Trefeurig Website Trefeurig8
whhowells@gmail.com



D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

## Llandre

**Ymddeol**
Dymuniadau gorau i Penri James ymddeolodd ddiwedd Medi ar ôl cyfnod o ddarlithio am 33 mlynedd yng Ngholeg Amaethyddol Cymru - wedyn Prifysgol Aberystwyth.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Delyth ac Eleri a'u teuluoedd ar farwolaeth eu mam Alice Morgan, Fferm Glanfred gynt, yng Nghaerdydd.

Cynhelir gwasanaeth ym Minny Street, Caerdydd am 9.00 fore Mawrth 25 Hydref ac oedfa wedyn am 2.00 yng Nghapel y Garn. Bydd y ddwy oedfa yn gyhoeddus.

**Ffotograffydd ifanc**
Llongyfarchiadau i Megan Lois Griffiths, disgybl blwyddyn 9 yn Ysgol Penweddig am ennill ipad - y brif wobr yng nghystadleuaeth ffotograffiaeth Prynhawn Da a Heno. Thema'r gystadleuaeth oedd yr Haf, a Megan ddaeth yn fuddugol yn y categori o dan 16 oed. A dyma'r llun buddugol trawiadol.



**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

## Trefeurig




**Taith gerdded**
Bu taith gerdded enwau lleoedd yn ardal Pen-bont Rhydybeddau, Cwmsymlog, Cwmerfyn, Goginan a Bancydarren dan arweiniad Elwyn Ioan ac Angharad Fychan ar 8 Hydref. Llond lle o enwau difyr: Plas Wigwam, Llety-sbens, Llety-caws Duon, Gochel Gwympo, Llwynysantesi, a llawer mwy. Diolch i bawb am eu cwmni!

**Gwella llwybrau**
Bu gwirfoddolwyr llwybrau cyhoeddus wedi bod yn brysur yn Trefeurig. Dyma lun o'r giât newydd. Mae nhw hefyd wedi torri llwybr yn yr eithin sydd yn mynd o Benrhiwnewydd ar draws y llethr i'r goedwig. Mae'n bosib hefyd mynd i fyny heibio Pant y ffynnon neu lawr i Ben-bont Rhydybeddau.









Mae wyneb newydd wedi ei roi i'r ffordd heibio Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn.

## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 20 Medi 2022 yn Festri Horeb, Penrhyn-coch. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Eirian Reynolds. Roedd y cynghorwyr Lowri Emlyn, Delyth James, a Gwenan Price yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir, Caryl Gruffydd Roberts. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y cynghorwyr Mel Evans, Shân James a Richard Owen.

Materion yn codi: Golau stryd – roedd angen symud ymlaen gyda hyn bellach, felly penderfynwyd holi Cyngor Ceredigion a oedd ganddynt swyddog sy'n delio â goleuadau stryd. Os oedd, dylid trefnu cyfarfod rhyngddo ef ag Eirian Reynolds a Richard Owen er mwyn trafod anghenion y pentref, yn enwedig y golau ar y ffyrdd drwy'r pentref. Golau ar y llwybr i Gogerddan – adroddodd y cynghorydd sir ei bod wedi bod yn holi swyddogion Cyngor Ceredigion a fyddai hi'n bosib cael goleuadau lefel isel ar y llwybr, ac roedd hi'n ymddangos y gallai hyn fod yn bosib. Felly disgwyl am wybodaeth bellach. Maes Seilo – dim gwybodaeth bellach ar hyn o bryd, ond roedd cyfarfod wedi'i drefnu gyda swyddogion Cyngor Ceredigion. Llwybr drwy'r parc – y Clerc i holi Aled Jones pryd y byddai'r gwaith yn cael ei wneud. Gwefan i'r Cyngor – o ganlyniad i ddeddf newydd, byddai angen sefydlu gwefan ar gyfer y Cyngor. Roedd yr isbwyllgor a sefydlwyd i drafod y mater wedi paratoi manylion ac yn barod i fynd allan i dendr ar gyfer y gwaith. Penderfynwyd hysbysebu'r tendr. Rheolau sefydlog ar gyfer y Cyngor – roedd y Cadeirydd wedi dosbarthu copïau o'r rheolau drafft yn flaenorol. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd eu mabwysiadu. Hyfforddiant i gynghorwyr – roedd Delyth James eisoes wedi rhoi crynodeb o ofynion deddf newydd a ddaethai i rym oedd yn cynnwys cyfarwyddiadau am hyfforddiant i gynghorwyr. Penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf, a neilltuo cyllideb ar ei gyfer. Storfa ar gae chwarae Pen-bont Rhydybeddau – roedd cais wedi dod am hawl i godi stordy ar y cae (sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned). Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi edrych ar y lês, a ddim yn gweld anhawster. Cytunwyd i'r cais.

Cynllunio: A220603 – cais i amrywio caniatâd cynllunio yn achos 57 Ger-y-cwm. Dim gwrthwynebiad.

Cyfethol aelodau newydd: yn dilyn etholiad mis Mai dim ond saith aelod oedd ar y Cyngor gyda lle i 11. Roedd y Cyngor wedi rhoi hysbysiad yn gofyn i bobl ddatgan a oedd ganddynt ddiddordeb mewn ymuno â'r Cyngor. Daethai pedwar cais ymlaen, sef Ceri Evans, Llywelyn Evans, David Mason a Meirion Roberts. Penderfynwyd cyfethol y pedwar.

Sul y Cofio – trafodwyd y trefniadau ar gyfer Sul y Cofio.

Dadffibriliwr ym Mhen-bont Rhydybeddau – roedd Pwyllgor Cae Chwarae Pen-bont wedi sicrhau dadffibriliwr am ddim, ond roedd amod y byddai'r offer yn cael ei gadw mewn cabinet pwrpasol. Roedd hwnnw'n costio tua £600. Roedd y Pwyllgor yn gallu cyfrannu £300 at y gost a gofynnwyd i'r Cyngor a allai gyfrannu'r gweddill. Penderfynwyd cyfrannu £300 at y gost.



STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogi
Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Mid Wales Removals
Ffôn: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816 / 01974 261758

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

# Y Borth

**Ronnie'n camu lawr fel Rheolwr Bad Achub y Borth wedi 30 Mlynedd**



Criw Bad Dosbarth-D y Borth yn 1966. Llun: RNLI/Dave Reynolds.



Ronnie Davies yn derbyn ei fedal am 50 mlynedd o wasanaeth gan Andy Dodd, Rheolwr Ardal gyda'r RNLI, yn 2020.

Ar ôl dros ddeng mlynedd ar hugain o wasanaeth fel Rheolwr Gweithrediadau Gorsaf Bad Achub y Borth, mae Ronnie Davies yn camu lawr.

Ond ni fydd ei ymroddiad hir at waith yr RNLI yn dod i ben gan y bydd yn parhau yn ei rôl fel Rheolwr y Ganolfan Gychod.

Hyd yma, mae Ronnie wedi rhoi cyfanswm o 56 mlynedd o wasanaeth i'r Bad Achub yn lleol ac mae ei gyfraniad clodwiw wedi'i nodi ar sawl achlysur.

Dechreuodd wirfoddoli yn 1966 pan agorodd gorsaf y bad achub yn y Borth. Ei rôl gyntaf oedd fel aelod o griw'r bad Dosbarth-D a welir yn y llun, cyn cael ei ddyrchafu'n llywiwr yn 1976.

Derbyniodd wobr 'Diolch ar Femrwn' yr RNLI am ei ran yn achub pobl oddi ar y creigiau yn 1978 ac eto yn 1991.

Wedi ymddeol fel Llywiwr yn 1992, daeth yn Ysgrifennydd Anrhydeddus Bad Achub y Borth a chafodd MBE yn 2004 am ei wasanaeth i'r gymuned, yn gwirfoddoli gyda'r RNLI, Gwasanaeth Achub y Glannau a'r Gwasanaeth Tân.

Yn 2013, derbyniodd Bathodyn Aur yr RNLI fel cydnabyddiaeth am ei gefnogaeth werthfawr i'r gwasanaeth. Daeth bathodyn arbennig arall yn 2020 am 50 mlynedd o wasanaeth.

Aelod ffyddlon arall o'r gwasanaeth lleol, Dave Reynolds, sy'n olynu Ronnie fel Rheolwr Gweithrediadau Bad Achub y Borth.

"Ar ran pawb yng ngorsaf bad achub y Borth, hoffem ddiolch i Ronnie am ei wasanaeth dros y blynyddoedd a datgan ein pleser ei fod yn aros yn rhan o'r tîm," meddai Dave.

Dywedodd Siwan Holloway, Rheolwr Ardal Achub Bywyd yr RNLI: "Hoffem ddiolch i Ron am ei ymroddiad a'i wasanaeth anhunanol fel Rheolwr Gweithrediadau Gorsaf Bad Achub y Borth. Mae ei arweinyddiaeth a'i waith diflino yn gadael esgidiau mawr i'w llenwi ond, gyda'i brofiad a'i wybodaeth helaeth o fod yn rhan o'r orsaf ers nifer o flynyddoedd, rwy'n gwybod y bydd Dave Reynolds yn parhau'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud yn y Borth ac y bydd yn arwain gwasanaeth achub bywyd rhagorol. Llongyfarchiadau mawr iddo."

# Gwobrau Fferylliaeth

Llongyfarchiadau mawr i Nrpendra Singh o Fferyllfa'r Borth ar ei lwyddiant yng Ngwobrau Fferylliaeth Cymru 2022 a gynhaliwyd yng ngwesty'r Vale yn Ne Cymru ar 7 Medi.

Trefnwyd y noson wobrwyo i ddathlu'r gwaith da a wneir gan weithwyr fferyllol proffesiynol ar draws Cymru, gan gynnwys fferyllwyr ysbyty a chymunedol, ac i dynnu sylw at brosiectau arloesol amrywiol.

Dyfarnwyd y wobr Arloesiad wrth Ddarparu Gwasanaeth mewn Fferylliaeth Gymunedol (Annibynnol) i Nrependra am ddatblygu ap dosbarthu PharmDel sy'n symleiddio ac yn gwella diogelwch ar gyfer cyflenwi.

Oherwydd lleoliad y fferyllfa ac anghenion y boblogaeth oedrannus yng nghymuned y Borth o ran dosbarthu meddyginiaeth, yn enwedig yn ystod y pandemig COVID-19, roedd e yn awyddus i bontio'r bwlch a darparu rhyngwyneb hawdd ei ddefnyddio,





gydag archebu, sganio a danfon meddyginiaeth wedi'i symleiddio mewn un clic. Yn ddyddiol, mae defnyddio'r ap wedi rhyddhau o leiaf awr a hanner o amser staff Fferyllfa'r Borth.

Llongyfarchiadau hefyd i Jenny Pugh-Jones a dderbyniodd wobr Cydnabyddiaeth Arbennig 2022 am ei chyfraniadau helaeth i'r sector fel Cyfarwyddwr Clinigol Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae hi'n arweinydd ac yn yrrwr newid ar lefel genedlaethol. Mae hi wedi bod yn eiriolwr cadarn dros gynyddu rôl glinigol a'r rol wynebu cleifion fferylliaeth gymunedol yn ogystal â rôl fferylliaeth mewn ac ar draws practisau meddygon teulu fel rhan o ddull aml-broffesiynol o ofalu am gleifion. Yn y sector ysbytai, mae hi a'i thîm bob amser yn gweithio ar hyrwyddo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau clinigol o ansawdd uchel ar draws pob safle. Mae hi wedi codi proffil a pharch at fferylliaeth ar draws y bwrdd iechyd a thu hwnt.

**Dathlu Pen blwydd yn 96**

Pen blwydd hapus hwyr i Mr Bill Doyle, a ddathlodd ei ben blwydd yn 96 oed ar 18 Medi. Yn enedigol o Iwerddon, mae Mr Doyle yn wyneb cyfarwydd i nifer. Daeth i Gymru yn wreiddiol i weithio ar dwneli'r cronfeydd dŵr yn ardal Ponterwyd cyn symud i helpu gyda'r gwaith o godi Ysbyty Bron-glais yn Aberystwyth.

Cyfarfu â Betty, menyw ifanc o'r Borth a oedd yn gweithio yn Aberystwyth ar y pryd. Fe'u priodwyd, gan ymgartrefu yn y Borth yn 1961.Tua'r un cyfnod fe benderfynodd perchennog busnes oedd yn cynnig teithiau ar gefn asyn i ymwelwyr ar hyd traeth y Borth, ei fod am ymddeol. Prynwyd yr asynnod gan Mr Doyle ac am flynyddoedd, bu'n arwain yr asynnod ar hyd y traeth yn ystod misoedd yr haf. Roedd yr anifeiliaid yn gyfarwydd iawn iddo gan fod asyn ganddo pan oedd yn fachgen ifanc yn tyfu lan yng nghefn gwlad Iwerddon, yn gweithio ar ffermydd lleol ac yn cludo nwyddau'n lleol gyda'i asyn a'i gert.

Y tu hwnt i dymor yr haf, pan oedd yr ymwelwyr wedi gadael y traeth, byddai'n cael gwaith yn clirio draeniau ac yn y 1960au hwyr, bu'n teithio i Sir Benfro i weithio ar brosiect cronfa ddŵr arall. Tan y pandemig, bu Mr Doyle yn mynychu arwerthiant ceffylau Llanybydder ar ddydd Iau ola'r mis ac mae'n dal yn ceisio mynd yno mor aml ag mae'n medru. Erbyn hyn, mae wedi byw yn y Borth yn hirach na fu'n byw yn Iwerddon ond mae ganddo acen yr Ynys Werdd o hyd.



# Newyddion Hyb Cymunedol y Borth

***Cadw'n Gynnes***

Yn sgil pryderon cynyddol am brisiau ynni, mae'r Hyb yn agor ei ddrysau fel 'Gofod Croeso Cynnes' rhwng 9yb a 4yp bob dydd Gwener. Dyma gyfle i bobl ymgynnull i gymdeithasu mewn man cynnes, i chwarae gêmau bwrdd a dysgu sut mae gwneud gwaith crosio.

Mae'r Hyb hefyd yn chwilio am gyfraniadau gwlân ar gyfer y clwb crosio, naill ai edafedd pedair cainc, gwlân Aran neu wlân trwchus mewn lliwiau llachar. Os oes gennych wlân i sbario, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda contact@borthfamilycentre.co.uk.

Bydd y Caffi Cymunedol ar agor fel arfer ar ddydd Gwener rhwng 11:30yb a 1.30yp.

***Clwb Cerdded Er Lles***

Mae'n union flwyddyn ers cychwyn teithiau Cerdded Er Lles yn y Borth.

Caiff y teithiau cerdded eu trefnu gan yr Hyb mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae 53 o unigolion wedi ymuno yn y fenter.

Yn ogystal, mae cyfanswm o 16 o wirfoddolwyr wedi rhoi dros 450 o oriau gwirfoddol at y prosiect.

Mae'r grŵp cerdded yn cwrdd bob bore dydd Gwener am 10:30 yn yr Hyb cyn cychwyn ar eu taith ac mae nifer yn dychwelyd yn hwyrach i gael cinio yng Nghaffi'r Hyb.

Ddwywaith yn unig yn ystod y flwyddyn y methwyd cynnal teithiau cerdded a hynny oherwydd rhybuddion tywydd stormus.

Mae aelodau'r grŵp cerdded hefyd wedi bod ar sawl gwibdaith, yn cynnwys Tal-y-llyn, Prosiect Gweilch y Dyfi a Llanerchaeron.

Dywedodd Rheolwyr yr Hyb, Helen Williams: "'Hoffem estyn diolch arbennig i Steven Jones o Geredigion Actif am sefydlu grŵp Cerdded Er Lles y Borth flwyddyn yn ôl. Diolch i Steve a'n gwirfoddolwyr, mae dros 50 o bobl wedi gallu mwynhau cymryd rhan yn y teithiau cerdded hamddenol, cymedrol hyn yn ystod y flwyddyn. Diolch hefyd i Dawn Forster am yr holl hyfforddiant a chefnogaeth."

Os hoffech ymuno â'r teithiau cerdded neu wirfoddoli fel arweinydd, cysylltwch â lisa@borthfamilycentre.co.uk. Trefnir hyfforddiant llawr ar gyfer gwirfoddolwyr.

***Dosbarthiadau Ioga – Y Menopos a'r PeriMenopos***

Mae dosbarthiadau ioga newydd wedi dechrau yn yr Hyb, yn benodol ar gyfer menywod â symptomau'r menopos neu'r perimenopos.

Caiff y dosbarthiadau eu cynnal yn wythnosol ar nos Lun rhwng 6.15 a 7yh gan Lindsay Cardwell ac mae tâl o £3 am sesiwn. I gadw lle, cysylltwch â @kamalayogacymru trwy Facebook.

***Canu Opera***

Oes gennych chi lais da? Mae'r Hyb yn chwilio am ddynion i ymuno mewn prosiect opera ar y cyd â Men's Sheds Cymru ac Opera Dinas Abertawe. Y bwriad yw cynnal perfformiad yn Neuadd Gymunedol y Borth ar nos Fawrth 2 Tachwedd. Os oes gennych chi ddiddordeb ymuno yn y canu, e-bostiwch helen@borthfamilycentre.co.uk.

***Hyfforddiant Cyfrifiadurol***

Ydych chi'n cael trafferth gyda'ch cyfrifiadur? Os felly, mae help wrth law. Mae Antur Cymru yn cynnal sesiwn hyfforddiant cam wrth gam yn yr Hyb rhwng 1.30-3.30 brynhawn dydd Gwener 28 Hydref. Mae'r sesiwn yn rhad ac am ddim ond mae angen cadw lle ymlaen llaw drwy e-bostio lisa@borthfamilycentre.co.uk. Dewch â'ch cluniadur, iPad neu ddyfais arall os oes gennych neu bydd offer yn cael ei darparu ar gyfer y sesiwn.



**Cymdeithas Henoed y Borth**

Pleser yw cyhoeddi bod Cymdeithas Henoed y Borth wedi ailgychwyn cwrdd yn Neuadd Gymunedol y Borth rhwng 2 a 4yp, am yn ail ddydd Iau.

Hyd yma, cynhaliwyd dau gwis, dau de parti, sesiwn paentio cerameg gyda Zara o Blue Island Ceramics, Ynys-las, sesiwn Cymorth Cyntaf gyda Jane Leggett, aerobeg cadair gyda Sarah Tudor, a gwibdaith bws i Lanidloes gyda John o gwmni RJ Jones yn gyrru.

Dywedodd y trefnydd, Joy Cook: "Cyn y Nadolig, ein gobaith yw y bydd ein swyddog heddlu lleol, PCSO Dave Goffin, yn galw i'n gweld er mwyn rhannu gwybodaeth ynglŷn ag osgoi'r sgamiau ofnadwy sy'n ein plagio'r dyddiau hyn.

"Rydym hefyd yn gobeithio y bydd digon o ddiddordeb yn ein Cinio Nadolig ar 8 Rhagfyr a'n taith siopa Nadolig ar 24 Tachwedd, sy'n agored i bawb. Cysylltwch os oes diddordeb."

## Y Borth (parhâd)

**Ffair Nadolig Elusennol**
Caiff Ffair Nadolig Elusennau'r Borth ei chynnal ar ddydd Sadwrn 3 Rhagfyr yn y Neuadd Gymunedol.

Dyma'r tro cyntaf i'r ffair gael ei chynnal ers y pandemig ac mae croeso i elusennau a grwpiau sy'n codi arian ar gyfer clybiau lleol i archebu bwrdd.

Bydd Groto Siôn Corn yno a lluniaeth ysgafn ar werth ond bydd angen dod ag arian parod gan na fydd peiriant talu â cherdyn ar gael. Os hoffech gadw bwrdd, cysylltwch â Joy ar 01970 871649.

**Clwb Bowlio'r Borth**
Mae Clwb Bowlio'r Borth wedi ailgychwyn cwrdd yn dilyn y pandemig. Mae'r clwb yn cwrdd dan do yn Neuadd Gymunedol y Borth bob dydd Mercher, gan ymgynnull am 1.30yp ar gyfer sesiwn bowls mat byr rhwng 2 a 4yp.

Mae croeso cynnes i chwaraewyr newydd a phrofiadol. Os oes gennych esgidiau bowls a bowls eich hunan, dewch â nhw draw. Fel arall, dewch i wylio a rhoi cynnig arni. Gwisgwch eich slipers, esgidiau addas neu dewch yn sanau eich traed. Bydd digon o gyngor a chymorth ar gael i'ch rhoi ar ben ffordd, ynghyd â phaned o de. Am fanylion pellach, cysylltwch â Joy Cook ar 01970 871649.

**Roy Darby**
Hoffai teulu'r diweddar Roy Darby, Cae Gwylan, estyn diolch i drigolion y Borth a'r cyffiniau am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd yn dilyn marwolaeth sydyn Roy ar 17 Mai.

Diolch hefyd i Selwyn Evans a'i swyddogion, i staff yr Amlosgfa, i'r Parchedig Richard Lewis, i Margaret a'i chynorthwywyr am baratoi te angladd hyfryd, i Donald am y blodau 'pêl-droed', i'r rheiny a anfonodd dros 200 o gardiau a negeseuon cydymdeimlad, ac i'r sawl a ddaeth â bwyd yn rhoddion i gadw ni i fynd yn y dyddiad cyntaf. Codwyd dros £1,390 i Gymdeithas Gwarchod y Plant, yr NSPCC, er cof am Roy.

**Artist Lleol yn Arddangos**
Mae arddangosfa o waith yr artist lleol Charlotte Baxter i'w gweld yn 2 London Place tan 6 Tachwedd.

Cael ei denu at y byd naturiol o'i chwmpas y mae Charlotte, gyda'i gwaith yn adlewyrchu'r rhythmau a'r cylchoedd a geir yn y byd naturiol a harddwch deinamig y dirwedd. Mae dal ysbryd neu hanfod lle yn arbennig o bwysig iddi yn ogystal â chyfleu ymdeimlad o symudiad a bywyd yn ei gwaith.

Gweithio'n bennaf gyda thorluniau leino a phren y mae Charlotte ac yn ei gwaith diweddaraf, mae'n symleiddio'r dirwedd i'w elfennau allweddol, gan anelu at gael cydbwysedd o ran lliw a chyfansoddiad. Mae graen y pren printiedig yn rhan annatod o'r ddelwedd ac mae ei defnydd o goed onnen lleol wedi'i adennill neu hyd yn oed broc môr ar gyfer ei blociau yn rhoi cysylltiad diriaethol â'r dirwedd ac yn ein hatgoffa o dreigl amser.

**Cerddoriaeth Fyw**
Bydd band ska pync Reckless Breakfast o Geredigion yn chwarae yng nghanolfan Seren y Môr / Star of the Sea am 7yh ar nos Sadwrn 19 Tachwedd. Mae tocynnau ar gael arlein neu wrth y drws.

**Casglu Sbwriel**
Bydd sesiwn casglu sbwriel yn y pentre yn cael ei chynnal am 10.30yb ar ddydd Sadwrn 29 Hydref. Y man cyfarfod os am helpu gyda'r gwaith yw ar y traeth gyferbyn â siop Premier Stores.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs. Elizabeth Evans, Catrin a Bethan, Perllan Hen, Glanwern, ar eu colled yn ddiweddar. Bu farw Ianto, gŵr Elizabeth a tad Catrin a Bethan yn sydyn iawn ddiwedd mis Medi.

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd hapus hwyr i Rhian Cory wrth iddi ddathlu pen blwydd arbennig ddiwedd mis Medi.

**Gwobr Oes John Hefin**
Cyhoeddwyd mai Arfon Haines Davies yw enillydd Gwobr Oes John Hefin 2022.

**Chwaraewr Dartiau Ifanc**
Llongyfarchiadau calonog i Siôn Davies o Langeitho a fydd yn teithio pob cam i Gibraltar ddiwedd Tachwedd eleni fel aelod o dîm o bedwar chwaraewr fydd yn cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Pencampwriaeth Dartiau y Byd JDC. Mae Siôn, sy'n ddisgybl ym Mlwyddyn 8 yn Ysgol Henry Richard, Tregaron, yn ŵyr i Maldwyn a Susan Williams, Heol Aberwennol, ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol Rhydypennau. Pob lwc iddo yn Gibraltar!



# Clwb Golff y Borth ac Ynys-las

**Diwrnod y Noddwyr**
Caiff y diwrnod arbennig yma ei gynnal yn flynyddol ar gyfer holl noddwyr y Clwb dros y flwyddyn. Trefnwyd y digwyddiad gan Dexter Lewis gyda chystadleuaeth timau o bedwar. Chwaraeodd wyth o dimau ar y dydd gyda thîm cwmni E&M Motos yn dod yn gyntaf a thîm Bookers yn ail. Casglwyd arian ar y dydd i elusen y Capten, Bob Gill, sef Gofal Nyrsio Macmillan a diolch i haelioni pawb codwyd £320.



**Ar Ddiwrnod y Noddwyr, Llywydd y Clwb Nans Morgan a'r trefnydd Dexter Lewis yn llongyfarch tîm buddugol sef E & M Motor Factors.**

**Adran y Menywod**
Rownd Gynderfynol Matchplay MWGA
Yn dilyn 6 gêm oddi cartref a gartref yn erbyn Clwb Lakeside a Llanymynech, fe lwyddodd tîm menywod y clwb i gyrraedd y rownd gyn derfynol. Ein gwrthwynebwyr yn y rownd gyn-derfynol oedd Clwb Llandrindod gyda'r gêm yn cael ei chwarae yng nghlwb Penrhos. Bu menywod y Borth yn brwydro'n galed yn y tair gêm ond Llandrindod oedd yr enillwyr ar y dydd. Diolch i'r menywod i gyd fu'n chwarae yn y gêmau dros y tymor a phob lwc i Landrindod yn y ffeinal

**Adran y Dynion**
Confensiwn Y Capten: Mynychodd 27 o chwaraewyr o adran y dynion Gonfensiwn y Capten Bob Gill i Glwb Golff Hawkstone. Cafwyd amser arbennig yn chwarae ar y cwrs, gyda Derek Saunders yn dod i'r brig, Nick Downing yn ail a Bob Gill ei hun yn 3ydd.

Ffeinal KBI: Enillwyd y gystadleuaeth arbennig yma gan Patrick Jones gyda sgôr o nett 70 yn chwarae oddi ar handicap o 5. Yn ail roedd Martin Haynes gyda nett 71 a Maurice Speeke â nett 72. Llongyfarchiadau iddyn nhw i gyd.
Enillwyr y Cystadlaethau Knockout
Dynion - Steve Evans yn curo Paul Worrel yn y ffeinal
Seniors - Mel Evans yn curo Harri Jones yn y ffeinal.

# LLE MAE NHW NAWR?

Bu'r teulu Hayes yn byw am flynyddoedd yn Y Borth. Bellach mae'r rhieni, Yr Athro Des a Mrs Nansi Hayes, a'u plant Sharon, John, Mike a Tim i gyd wedi symud ymhellach i'r De.

Symud i Gaerfyrddin i fod yn nes at y teulu wnaeth Des a Nansi Hayes a hynny ar ôl treulio 47 o flynyddoedd yn Y Borth. Nid yw'n syndod deall iddynt wneud ffrindiau newydd yng Nghaerfyrddin a'u bod wedi ymgartrefu'n dda yn eu cartref newydd. Maent yn aelodau yn Nghapel Annibynwyr y Priordy.

**Sharon Jones (gynt Hayes)**
Ar ol gadael Ysgol Penweddig, aeth Sharon i Fangor i hyfforddi i fod yn nyrs yn yr hyn a elwid bryd hynny yn Ysbyty'r 'C&A'. Wedi iddi gymhwyso fel nyrs, bu'n gweithio fel nyrs staff ar Ward Glyder yn Ysbyty Gwynedd am ddwy flynedd cyn penderfynu lledu ei gorwelion ymhellach a mynd i weithio yn Seland Newydd. Cafodd swydd yn Ysbyty Middlemore yn Auckland a bu'n gweithio yno am flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn honno, dychwelodd i Gymru gan ddilyn cwrs bydwreigiaeth yng Nghaerdydd. Treuliodd gyfnod yn gweithio fel bydwraig yng Nghaerdydd tan 1993. Yng Nghaerdydd hefyd y cyfarfu â Pete ac mae'r ddau yn briod ers 1991. Mae ganddynt dri o blant – Carys (sy'n briod â Gruff), Dafydd a Mari (sy'n briod ag Alex). Mae Sharon newydd ymddeol ar ôl treulio cyfnod o 15 mlynedd yn gweithio fel cynorthwyydd cyffredinol a chynorthwyydd un i un yn Ysgol y Wern, Caerdydd. Bellach mae hi a Pete newydd brynu tŷ yn Abertawe ac yn gobeithio symud o'u cartref presennol yng Nghaerdydd i'w cartref newydd yn Abertawe ddiwedd mis Hydref.



**John Hayes**
Wedi graddio gyda Gradd BSc mewn Daearyddiaeth yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth (1984-1987), aeth John yn ei flaen yn syth i ddilyn cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion. Fe'i penodwyd yn Athro Daearyddiaeth yn Ysgol Gyfun Glantaf ac fe'i dyrchafwyd yn fuan wedyn yn Bennaeth yr Adran Ddaearyddiaeth ac yna'n Ddirprwy Bennaeth y Chweched. Pan sefydlwyd Ysgol Gyfun Plasmawr yng Nghaerdydd ym 1998, symudodd John o Ysgol Glantaf i Ysgol Plasmawr. Treuliodd bron i chwarter canrif yn Ysgol Plasmawr - i ddechrau fel Dirprwy Bennaeth cyn iddo gael ei benodi'n Bennaeth a threuliodd nifer o flynyddoedd yn Bennaeth Plasmawr. Mae John yn briod â Bethan Haf ac mae ganddynt ddau o blant - Cai sy'n 24 oed a Beca sy'n 23 oed.

**Mike Hayes**
Aeth Mike i Wolverhampton o'r Borth, er mwyn astudio ar gyfer gradd mewn Gwyddoniaeth Amgylcheddol. Wedi iddo ennill ei radd BSc, dilynodd gwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion, gan hyfforddi i fod yn athro cynradd. Cafodd ei swydd gyntaf yn Ysgol Gynradd Casnewydd, lle bu'n athro rhwng 1993 a 2001. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Abercynon yn 2001 a bu yno nes ei benodi'n Bennaeth Ysgol Coed y Gof Caerdydd yn 2005. Bellach, ers 2017, mae'n arolygwr gydag Estyn.

Priododd Mike â Haf Tudno Williams yn 1999 (mae ganddi hithau hefyd gysylltiadau â'r Borth) ac mae ganddynt dri o blant - Magi sy'n ddeunaw oed ac sydd yn cymryd blwyddyn allan cyn parhau â'i haddysg, Ffred sydd yn y Chweched dosbarth ac Arthur sydd ym Mlwyddyn 8.

**Tim Hayes**
Wedi ennill gradd mewn Bioleg ym Mhrifysgol Caerdydd ym 1994, dychwelodd Tim i Aberystwyth, gan ddilyn cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion yn y Brifysgol yn ystod 1994-95. Ar ddiwedd y cwrs hwnnw, fe'i penodwyd yn athro yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu a bu'n athro yno am ddwy flynedd. Symudodd o Aberhonddu i Ysgol Bro Myrddin, Caerfyrddin ym 1997 ac mae e bellach yn Bennaeth Bioleg ac yn Bennaeth Chweched Dosbarth yn yr ysgol honno.

Mae Tim wrth ei fodd gyda chwaraeon o bob math, yn enwedig rygbi. Cafodd gryn lwyddiant ym maes dyfarnu rygbi. Dechreuodd drwy ddyfarnu ar lefel canolbarth Cymru, cyn mynd rhagddo i ddyfarnu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Yr uchafbwynt iddo oedd dyfarnu yng Nghwpan Rygbi'r Byd yn Seland Newydd yn 2011 - tipyn o gamp!

Priododd â Rebecca Jones yn 2008 ac mae ganddynt ddau fab Osian sy'n dair ar ddeg oed a Trystan sy'n naw oed. Maent yn byw yn Ffairfach ger Llandeilo.

## Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**
*Hydref*
**23** 2.30 Judith Morris
**30**
*Tachwedd*
**6** 2.30 Rhidian Griffiths
**13** 10.00 D.S. amser John Roberts Sul y Cofio
**20** 2.30 Beti Griffiths. Bethel yn ymuno
**27**

**Clwb Sul**
*Hydref*
**25** St Ioan
Tachwedd
**20** Horeb
**27** St Ioan


**Bore Coffi Macmillan**
Cynhaliwyd bore coffi ar Fedi 13eg yn Neuadd yr Eglwys ar gyfer codi arian i gronfa Macmillan. Daeth llawer o bobl i ymuno a chymdeithasu a gwnaethpwyd elw o £780. Yr ydym yn ddyledus i bawb a gyfrannodd drwy wneud cacennau, prynu o'r stondin, a hefyd trwy gyfraniadau haelionus iawn. Llawer o ddiolch i bawb am wneud yr achlysur eto eleni yn un llwyddiannus a diolch hefyd i'r rhai a fu'n cynorthwyo wrth y stondin ac i'r rhai a fu'n gwneud y te a'r coffi.

**Teyrnged**
**Glyn Collins (1936-2022)**
Bu farw Glyn yn dawel yn ei gartref yn Ger-y-llan ar 7 Medi yn dilyn brwydr hir a dewr yn erbyn ei salwch. Fe'i ganwyd yn ardal Mayhill, Abertawe ar 30 Ionawr 1936, ac roedd yn falch iawn o'i gefndir fel un o Jacs y ddinas. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg Dinefwr, cyn ymuno â staff Llyfrgell Dinas Abertawe yn 1952. Dychwelodd i'r ddinas yn 1957 ar ôl cyfnod o wasanaeth cenedlaethol gyda'r Llu Awyr gan gymhwyso fel llyfrgellydd siartredig. Rhwng 1965 a 1976 bu'n gweithio yn Port Talbot fel llyfrgellydd a swyddog gwybodaeth i'r cwmni dur, gan lwyddo hefyd i raddio BA yn y Brifysgol Agored yn 1974. Yn 1976 ymunodd â staff Coleg Llyfrgellwyr Cymru/ Adran Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth Prifysgol Cymru fel swyddog cyswllt, hyfforddi a gweinyddol. Gorffennodd ei yrfa fel swyddog rhan-amser i Gymdeithas Llyfrgelloedd Cymru.

Roedd Glyn yn ŵr amryddawn, ac yn weithgar yn ei gymuned. Bu'n aelod ffyddlon ac yn gadeirydd ar Gôr Meibion Aberystwyth. Roedd ganddo ddiddordebau eang yn cynnwys ffotograffiaeth, chwarae golff a theithio.

Rhoddodd oes o wasanaeth i Eglwys St. Ioan ym Mhenrhyn-coch fel swyddog a darllenydd, ac yn ystod y cyfnod clo roedd yn ddiwyd iawn ei gymorth gyda'r cwis cymunedol zoom pythefnosol, yn gystadleuydd brwd, ac yn osodwr cwestiynau yn ei dro.

Roedd yn ŵr ffyddlon i Norma, yn dad i Richard a Louise, yn dad-yng- nghyfraith i Jenny, ac yn dad-cu balch i Hannah a James. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys St. Ioan ar 23 Medi dan arweiniad ei ficer y Canon Andrew Loat, a ddilynwyd gan wasanaeth preifat i'r teulu yn Amlosgfa Aberystwyth.



Byddwn i gyd yn colli Glyn ac yn ei gofio gydag anwyldeb. Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf â Norma a'r teulu yn eu hiraeth ar ôl gŵr bonheddig a chyfaill cywir iawn i lawer ohonom.
**Richard E. Huws**

**Cymdeithas y Penrhyn**
Cafwyd noson werth chweil yng nghwmni Caryl Lewis yn Horeb ar 21 Medi fel agoriad i'r tymor eleni. Mae Caryl yn awdur adnabyddus ers blynyddoedd, gan ei bod wedi ennill nifer o wobrau yn gynnar yn ei gyrfa, gan cynnwys gwobr Llyfr y Flwyddyn am *Martha, Jac a Sianco* yn 2005.

A hithau wedi troi'n ddeugain ychydig cyn y pandemig, roedd yn awyddus i roi cynnig ar ysgrifennu yn Saesneg, er mwyn creu platfform i awduron Cymraeg ysgrifennu yn Saesneg a lleihau'r anghydbwysedd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn gwaith creadigol.

Soniodd fel y bu iddi gwrdd ag asiant oedd yn deall y cyd-destun yn Ffair Lyfrau Llundain ac yna ysgrifennu llyfr i blant dan y teitl *The Boy Who Dreamed Dragons.* Gydag artist adnabyddus o Sbaen – Carmen Saldaña – yn gwneud y gwaith darlunio, mae'r llyfr wedi'i gyhoeddi erbyn hyn mewn pum iaith.

Clywed dyn o Aleppo, yn Syria, yn siarad Cymraeg yn Nhregaron oedd yr hedyn ar gyfer ei nofel gyntaf yn Saesneg i oedolion, *Drift*. Stori gariad rhwng dau berson o ddau ddiwylliant gwahanol yw hon ac roedd hynny wedi caniatáu iddi blethu themâu ail dai, colonieddio, ac ati i mewn i'r stori.

Roedd cyflwyniad Caryl yn manylu ar y broses gyhoeddi a'i brwdfrydedd byrlymus yn codi awydd o'r newydd i ddarllen rhagor o'i gwaith yn Gymraeg ac yn Saesneg.



## Gwobrau Cadwedigaeth Ddigidol

Cyflwynir Gwobrau Cadwediaeth Ddigidol gan Gynghrair Cadwedigaeth Ddigidol pob dwy flynedd i ddathlu llwyddiannau mwyaf arwyddocaol unigolion a sefydliadau wrth iddynt sicrhau cynaliadwyedd cynnwys digidol. Yn dilyn proses asesu drylwyr, cyhoeddwyd enwau'r enillwyr mewn seremoni gyflwyno ddisglair yn Glasgow, lle roedd sefydliadau ac ymarferwyr cadwediaeth ddigidol o bob cwr o'r byd yn bresennol. Roedd y Llyfrgell yn falch iawn o ennill Gwobr Rhwydwaith Treftadaeth Ddigidol yr Iseldiroedd am Addysgu a Chyfathrebu am y prosiect: Dysgu Trwy Wneud: adeiladu sgiliau cadwraeth ddigidol yng Nghymru: https://www.dpconline.org/news/dpa2022-winners.

Roedd Dysgu Trwy Wneud yn rhaglen o



**Simon Evans, Sally McInness, Paul McCann a Rob Evans gyda'i gwobr.**

hyfforddiant rhyngweithiol a ddarparwyd gan staff y Llyfrgell ar blatfform Teams i ymestyn sgiliau cadwedigaeth ddigidol a chynyddu capasiti ar gyfer staff sy'n gweithio mewn sefydliadau ledled Cymru. Mae adnoddau i gefnogi'r hyfforddiant ar gael ar wefan Archifau Cymru: https://archives.wales/staff-toolkit/saving-the-bits-programme/.



Cylch Meithrin Trefeurig yn cofio Diwrnod Owain Glyndwr wrth wneud baneri, tariannau a cestyll.



Gwenan Price yn cynnal sesiwn arlunio gyda Brownies Penrhyn-coch ar gyfer ei bathodyn Peintio.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Cemlyn a Ruth yng Nghaerdydd ar enedigaeth Mabli Alys – ar 20 o Fedi; chwaer fach i Efan, wyres i Bethan a Jeremy Davies, Glan Ceulan a nith i Trystan.

**Eglwys Sant Ioan**

Mae gan yr Eglwys lawer i fod yn ddiolchgar amdano, yn enwedig am yr amser a rannwyd gyda'r Parchg Lyn Lewis Dafis ac am ddychweliad y Parchg D. Lynn Rees. Dechreuodd y ddau ar eu gweinidogaeth gyda'i gilydd a'u hordeinio yr un pryd gan yr Esgob Wyn ym mis Mehefin 2016, i wasanaethu yn Esgobaeth Tyddewi fel Offeiriad a Diacon. Arhosodd Lyn yma ym Mhenrhyn-coch tra penodwyd Lynn i weinyddu yn Eglwys Llandybie. Bydd Lynn yn wyneb cyfarwydd i lawer ohonoch gan iddo fyw yn y pentref yn y gorffennol. Ymunodd â'r weinidogaeth fel heddwas wedi ymddeol ac mae ganddo gysylltiadau cryf â Bad Achub yr RNLI, a hefyd yn Gaplan i Gadetiaid Môr Aberystwyth.

Bydd Lynn a'i deulu yn preswylio yn y ficerdy yma ym Mhenrhyn-coch yn y dyfodol agos ac edrychwn ymlaen at eu croesawu i'n Plwyf.






**Cofio y Frenhines Elizabeth II**

Yr unig adeg y bum i yn agos at y Frenhines oedd pan y bu yn ymweld a'r Llyfrgell Genedlaethol ym 1955. Yr oeddwn i yn aealod o'r Gwarchod Sifil Aberystwyth ar y pryd ac ar ddyletswydd ar Riw Pen-glais y diwrnod hwnnw yn ceisio cadw trefn ar y dyrfaoedd wedi ymgasglu i weld ei modur crand yn mynd heibio. Diwrnod arall i mi gofnodi yng nghalendr fy mywyd.

**Coronafeirws**

Mae'r hen coronafeirws yn dal i ffynnu ac mae pawb yn gofidio yn fawr am hynny ond diolch i'r meddygon a'r nyrsuso hyd am eu gofal tyner drosom i gyd. Diolch hefyd i bawb yn yr ardal heddiw sydd yn ofalus ohonom ac yn barod i'n helpu pan. Bu'n amser anodd unwaith eto ond gobeithio fod y gwaethaf wedi mynd heibio. Beth bynnag sydd eto i ddod o'n blaen gobeitrhio y gallwn gario ymlaen. Hefyd i mi mae popeth yn glir fod ein Creawdwr yn gofalu amdanom yn wir. Felly gyda'n gilydd gawn ni glodfori y bydd popeth yn iawn dros pob yfory.

**Mairwen Jones**



## Codi arian i Uned Cemotherapi Bron-glais

Mae staff Gofal Plant Gogerddan yn heicio i fyny Cadair Idris ar 22 Hydref i godi arian ar gyfer Apêl Cemo Bron-glais ar ôl i un o'u cydweithwyr gael diagnosis o ganser y fron. Mae pedwar ar ddeg o'r 28 o staff y y feithrinfa ym Mhenrhyn-coch, yn cymryd rhan ac maen nhw'n rhannu'n ddau grŵp, un yn gwneud y daith gerdded 11 milltir lawn i'r copa ac yn ôl ar lwybr Minffordd, a'r llall yn gwneud y daith fyrrach, taith chwe milltir i'r llyn, Llyn Cau, ac yn ôl.

Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr y feithrinfa, Emma Healy: "Rydyn ni'n gwybod y bydd y daith gerdded yn anodd, gydag esgyniad o 4,000 troedfedd, ond rydyn ni'n gobeithio cwblhau sialens y copa lawn mewn wyth awr. Rydym yn mynd i fod yn gwneud rhywfaint o hyfforddiant ar y llwybr arfordirol i geisio paratoi ein hunain.

"Roedden ni eisiau cefnogi'r Apêl oherwydd bod un o'n haelodau staff, Jacqueline Walters, yn derbyn triniaeth yn yr uned ddydd cemotherapi ar hyn o bryd ac mae hi'n gweld yn uniongyrchol sut mae angen uned newydd a'r effaith y bydd yn ei chael.

Cafodd Jacqueline, 51, sy'n nyrs feithrin yn y ganolfan gofal plant ac yn byw ym Mronnant, ddiagnosis o ganser y fron ym mis Ebrill ac ar ôl llawdriniaeth mae bellach yn derbyn cemotherapi yn yr uned.

Os hoffech gyfrannu at sialens meithrinfa Gogerddan, ewch i https://www.justgiving.com/GogerddanChildcare22

# Pêl-droed Penrhyn-coch

**Tîm 1af**

*Medi*

**3** Cwpan Cynghrair Gwasanaeth Rhoi Gwaed Cymru
Yr Wyddgrug Alexandra 4 Penrhyn-coch 0
**6** Cyngrhair – Penrhyn-coch 1 Rhuthun 1
**17** Penrhyn-coch 0 Caersŵs 0
**24** Penrhyn-coch 0 Llandudno 2

*Hydref*

**1** Treffynnon 2 Penrhyn-coch 0

**Eilyddion**

*Medi*

**20** Penrhyn-coch 0 Bow Street 3
**24** Cwpan J Emrys Morgan - Llangedwyn 1 Penrhyn-coch 0

*Hydref*


**2** Dolgellau 6 Penrhyn-coch 2
**8** Y Trallwng 1 Penrhyn-coch 0
**15** Caersŵs 1 Penrhyn-coch 4

## Eisteddfod Penrhyn-coch 2023

Cynhelir cyfarfod yn fuan i drafod cynnal Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2023
Os ydych â diddordeb bod yn rhan o'r trefnu cysylltwch â Ceris Gruffudd
01970 828017
Ceris.Gruffudd@gmail.com

# Adolygiad

Jan Williams *Bells Across Cardigan Bay: the Memoir of a Borth Master Mariner*
Y Lolfa 192t. £9.99




Os aeth **Capten**, enillydd y Daniel Owen yn Eisteddfod Tregaron eleni, â ni ar fordeithiau o Ben Llŷn i ben draw'r byd, dyma gyfrol sy'n rhoi ail-gyfle i ni droi'n golygon tua'r môr, ond oddi ar arfordir Ceredigion y tro hwn. Ym mhentre'r Borth y magwyd yr awdures, i linach o forwyr. Mae hi bellach yn byw yn Essex ac eisoes wedi cyhoeddi dwy gyfrol o chwedlau gwerin o'r ardal honno - *Essex Folk Tales* ac *Essex Folk Tales for Children* (The History Press Ltd) mae hi hefyd wedi ei gwobrwyo am chwedleua.

Prif edefyn y llyfr yw ymdrech yr awdures i olrhain hanes ei hen dad-cu, y Capten John Evans, a'i long, y *Rowland Evans*, a suddodd, dan amgylchiadau amheus, ger Ynys Enlli yn 1882, heb i neb golli ei fywyd.

Mae'n agor yn ddigon dymunol gyda darlun atgofus o'r Borth yn ei phlentyndod ym mhedwardegau a phumdegau'r ganrif ddiwethaf, ac yn mynd ymlaen i ddangos sut y bu morwriaeth yn holl-bwysig i deuluoedd y pentref hynod hwn a dyfodd ar y morfa rhwng y weilgi a'r figyn.

Yn ei hymchwilio brwdfrydig mae'n darganfod ac yn dilyn pen sawl llwybr, a thrwy hynny yn rhoi cipolwg ar ac yn codi cwestiynau ynghylch gwahanol agweddau arwyddocaol ar fywyd cymuned forwriaethol y cyfnod, er enghraifft gwaith a chyfrifoldeb capten llong a'i berthynas â'i griw, pa nwyddau a gariai'r llongau ar eu teithiau, hanes y diwydiant adeiladu llongau lleol – brig oedd y *Rowland Evans*, un o'r llongau diwethaf i gael ei hadeiladu yn Nerwenlas gan Jac y Traeth, a oedd wedi ei henwi ar ôl perchennog yr iard longau, dyn o Ddinas Mawddwy a oedd yn gefnogwr cryf i eglwysi Annibynnol.

Mae'r llyfr yn llawn pytiau o wybodaeth amrywiol a manwl, ond er hyn i gyd mae'r cwestiwn mawr yn aros – beth yn hollol ddigwyddodd i'r llong *Rowland Evans*, ac a oedd y Capten John Evans yn haeddu cael ei gosbi? Darllenwch y dystiolaeth cyn ffurfio barn.

**Llinos Dafis**

## Colofn **Ben Lake AS**

A ninnau ar drothwy'r gaeaf, mae'r nosweithiau'n byrhau ac mae realiti yr argyfwng ynni a chostau byw yn taro teuluoedd ar draws Ceredigion.

Rwyf innau wedi dychwelyd i San Steffan yn dilyn toriad cynadleddau'r pleidiau gwleidyddol ac yn anffodus mae'r annhrefn gwleidyddol yn parhau a'r diffyg gweithredu i helpu teuluoedd a busnesau yng nghefn cyn y gaeaf, yn parhau i bery cryn bryder i mi a fy etholwyr.

Yng Ngheredigion mae'r canran uchaf o gartrefi ac eiddo sydd heb eu cysylltu â'r prif gyflenwad nwy o blith tir mawr Prydain – gydag oddeutu 74% o gartrefi'r sir yn ddibynnol ar ffynonellau amgen megis olew a poteli nwy LPG i'w gwresogi. Mae'n anodd credu mewn economi ddatblygedig fel un y Deyrnas Gyfunol, y bydd cynifer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd i wresogi eu cartrefi y gaeaf hwn.

Dros yr wythnosau diwethaf, mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi rhannu manylion eu cynlluniau ar gyfer helpu aelwydydd sydd wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy, ond rydym yn dal i aros am fanylion y cymorth a fydd yn cael ei gynnig i'r rhai nad ydynt wedi'u cysylltu â'r grid.

Mae'r cartrefi a'r busnesau hyn yn ddibynnol ar ffynonellau amgen o ynni, megis olew neu boteli nwy LPG, ac maent yn wynebu cynnydd syfrdanol yn eu biliau gwresogi. Mae cynnig presennol y Llywodraeth o un taliad o £100, heb unrhyw esboniad o sut y bydd aelwydydd cymwys yn ei dderbyn, yn ymgais druenus gan y Llywodraeth i sicrhau bod cymorth cymesurol ar gael i eiddo oddi ar y grid.

Mae Plaid Cymru yn cynnig y dylid cyflwyno talebau i gartrefi brynu 1,000 litr o olew gwresogi neu gyfaint cyfatebol o boteli nwy LPG i gynhesu eu cartrefi y gaeaf hwn. Byddai hynny'n cynrychioli lefel gymesur o gymorth i'r hyn a gynigiwyd eisoes i aelwydydd sy'n dod o dan y Gwarant Pris Ynni.

Mae cartrefi nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy eisoes yn wynebu costau uwch oherwydd eu lleoliadau gwledig, yr inswleiddio gwael mewn canran uchel o gartrefi, seilwaith trafnidiaeth gwael, a chyfleusterau lleol annigonol, ac rwyf o'r farn bod cosbi'r aelwydydd hynny trwy gyflwyno pecyn cymorth mor dila yn gwbl anfoesol.

Ry'n ni'n wynebu gaeaf llwm, ac rwy'n parhau i godi llais yn San Steffan ar ran aelwydydd a chymunedau gwledig Ceredigion am yr angen i ddarparu mesurau cefnogaeth cyfartal i bob cartref a busnes. Os ydych chi'n poeni am eich sefyllfa bersonol chi neu os oes angen cymorth neu gefnogaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi dros ebost neu dros y ffôn: ben.lake.mp@parliament.uk / 01570 940333.

# Enwau lleoedd

## Angharad Fychan

Y mis hwn rŷn ni'n troi ein golygon at ogledd eithaf Ceredigion, gan groesi afon Llyfnant a mentro rai cannoedd o lathenni i diroedd Maldwyn. Ar y gefnen uwchlaw'r Llyfnant, mewn safle godidog yn edrych allan ar aber afon Dyfi, mae ffermdy *Tyno-hir*.

Cyfeiria Iorwerth C. Peate ato yn *The Welsh House* (1940, t.178) fel esiampl o dŷ wedi ei lunio'n rhannol o ffrâm bren, ac mae'r nodwedd honno i'w gweld mewn hen lun o'r ffermdy.





**Llun drwy garedigrwydd Ruth Jenkins-Hughes, Tyno-hir**

Daw'r enghraifft gynharaf o'r enw y gwn i amdani o gytundeb priodas yn 1671 sy'n enwi 'Walter Pryse of *Tynoheer*' (Gweithredoedd Cwrtmawr 1449, LlGC). Ymddengys fel *Tynohir* a *Tyno Hîr* ar fap llawysgrif a luniwyd gan stad Gogerddan yn 1790 (Maps of the Gogerthan Estate, ii. 16, 18, LlGC), ac fel *Tyno hir* ar Restri'r Map Degwm yn 1844. Mewn gwirionedd, parhaodd y sillafiad yn rhyfeddol o gyson dros y canrifoedd.

Mae'n amlwg mai'r ansoddair *hir* 'mawr o ran hyd' yw elfen olaf yr enw, ond efallai y bydd yr elfen gyntaf yn fwy dieithr. Er bod dau air *tyno* yn y Gymraeg, yr un sy'n tarddu o'r Hen Gymraeg *tnou* ac sy'n golygu 'dyffryn, pant, neu wastatir' a welir yma (yn hytrach na'r un sy'n golygu 'tafod o bren, &c., sy'n ffitio mewn mortais' ac sydd o bosibl yn gysylltiedig â'r gair Saesneg cyfystyr *tenon*). Yn wir, elfen mewn enwau lleoedd ydyw yn y dystiolaeth gynharaf a geir ohono ar glawr, a hynny yn Llyfr Llandaf o'r ddeuddegfed ganrif.

Yn achos Tyno-hir, Glandyfi, tebyg bod yr enw'n cyfeirio at ddoldir gwastad a helaeth dyffryn Llyfnant islaw, yn hytrach na lleoliad y tyddyn ei hun ar y gefnen uwchlaw




**Map OS 6" Cardiganshire II NW (1887)**
**© Arolwg Ordnans (100064713)**

Ceir amryw enghreifftiau o *tyno* yn enwau lleoedd siroedd y Gogledd, megis *Coetyno* (*coed+dyno*) yng Nghlynnog, a *Tyno-coch* ar Ynys Enlli, sir Gaernarfon; *Tyno Isaf* a *Tyno Uchaf* ger Trefor, sir Ddinbych; a *Bwlch y Tyno* yn Llanfor, Meirionnydd. Hyd y gwn i, nid yw'n digwydd yn enwau lleoedd Ceredigion, ond honnai Iolo Morganwg (*Iolo Manuscripts*, 1848, t.522) mai *Tyno Coch* oedd hen enw'r sir.

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**







y tincer
Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol
YTincer@googlemail.com

# Bow Street

**Suliau**
**Capel y Garn**
10.30
*Hydref*
**23** Bugail (Gofalaeth)
**30** Beti Griffiths

*Tachwedd*
**6** Bugail
**13** Lyndon Lloyd
**20** Bugail
**27** John Roberts

**Suliau Noddfa**
**(Pob Oedfa am 10.00)**
*Hydref*
**23** Cyfeillach yng ngofal Mair Lewis.
**30** Parch. Richard Lewis. Cymundeb.

*Tachwedd*
**6** Aled Myrddin.
**13** Uno yn y Garn.
**20** Parch. Richard Lewis
**27** Cyfeillach yng ngofal Gareth William Jones.

**Pen blwydd Arbennig**
Pob dymuniad da i Carwyn Lloyd Jones, Maesawelon, fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 50 ar y 1af o Dachwedd.

**Dr. Michael Hayward**
Trist yw cofnodi marwolaeth Dr. Michael Hayward, Rhyd Hir Uchaf, Comins-coch, ar y 15fed o Fedi. Yn wyddonydd o statws rhyngwladol ym maes geneteg planhigion yr oedd Mike hefyd yn wladwr o argyhoeddiad ac wedi rhoi oes o wasanaeth i'r Fridfa yng Ngogerddan. Gyda'i ddiddordeb byw ym mhopeth yn ymwneud â byd natur a'r amgylchedd yr oedd yn gwmni difyr bob amser a gyda'i ddiddordeb mewn ffotograffiaeth bu'n feirniad yn yr adran honno yn Sioe Rhydypennau ar sawl achlysur.

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Shân a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Mrs Gwyneth Hunkin**
Gyda tristwch dwys y clywsom am farw tawel Gwyneth Hunkin, 92 Bryncastell, ar y 14eg o Fedi. Yn ferch o Benrhyndeudraeth aeth Gwyneth i'r Coleg Normal ym Mangor i gymhwyso fel athrawes ar ôl derbyn ei haddysg yn lleol. Ac yn fuan ar ôl cymhwyso fel athrawes mentrodd i lawr i'r De, a hynny yn y cyfnod pan oedd addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ond yn dechrau gwreiddio yno a chael amser wrth ei bodd yng nghymoedd y Rhondda. Mae'n ddiddorol nodi bod ei thad wedi bod yno am gyfnod o'i blaen pan oedd



gwaith yn brin yn chwareli'r Gogledd. Cafodd yrfa lwyddiannus iawn yno a bod yn athrawes ar ddisgyblion fel Ieuan Rhys yr actor, Felix Aubel ac un o feibion Syr Tom Jones. Yno hefyd y cyfarfu â bachgen ifanc o'r enw Malcolm Hunkin a oedd wedi cyflwyno ei hun iddi fel Barry John ar y dechrau! Yn y man mentrodd y ddau i gyffiniau Aberystwyth lle cafodd Malcolm waith fel adeiladydd a lle cafodd Gwyneth waith fel athrawes. Dyma pryd yr ymsefydlodd y ddau yn Bow Street lle ganwyd Guto ac Angharad. Yna daeth cyfle i Gwyneth ymuno â staff yr Urdd gan weithio'n bennaf yn yr adran gylchgronau a dechrau ar gyfnod cynhyrchiol iawn yn ei hanes, y cylchgrawn CIP er enghraifft. Agwedd arall ar ei doniau llenyddol oedd y ffaith iddi ennill gwobrau am waith ysgrifenedig yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1978 ac yn 1982. Yr oedd yn Gymraes i'r carn a bob amser yn barod i ddangos ei gwrthwynebiad i unrhyw anghyfiawnder ac hefyd yn meddu ar bersonoliaeth hawddgar oedd yn ei gwneud yn berson mor gyfeillgar oedd mor rhwydd closio ati. Yr oedd hefyd yn aelod ffyddlon o Gapel Noddfa yn Bow Street ac yn fawr ei pharch ymysg ei chymdogion ar ystad Bryncastell. Rhaid cofio am ei hymroddiad i'w theulu hefyd ac mi 'roedd hi'n fraint clywed Guto ac Angharad yn sôn am hyn wrth dalu teyrnged iddi ar ddydd ei hangladd. Wrth ddiolch am y fraint o gael ei hadnabod ar hyd y blynyddoedd yr ydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant â Malcolm, Guto ac Adriana, Angharad a Steve, Lily-May, Amelia, Daniel a Sam, ac Anwen ei chwaer yn eu profedigaeth.

Gobaith o'r jêl a welid - ar gychwyn
yr erlyn a'r erlid;
o'i hôl, yn ei hoes ddi-hid,
yr oedd rhyw chwa o ryddid.
*Sion Aled*

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir yn ddiffuant â Mrs Elizabeth Lloyd Jones, 25 Maes Ceiro, ar golli cefnder yng Nglyn Ceiriog; â Mrs Mair Davies, Irlwyn, Y Lôn Groes, ar golli cefnder yn y Borth a chwaer yng nghyfaith yn ardal Trisant; ac â Mrs Mary Thomas, Tŷ Clyd, ar golli brawd yng ngyfraith yn y Borth, yn ddiweddar.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Daeth eto fis Medi ac amser ailgydio yng ngweithgareddau'r gaeaf.

Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Llywydd, Bethan Hartnup, a diolchodd i'r cyn bwyllgor am eu gwaith trylwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Trafodwyd materion oedd yn codi a darllenwyd yr ohebiaeth a ddaeth I law. Braf oedd gweld y lluniau o Brenda a Gaenor gyda Maggi Noggi yn Eisteddfod Tregaron.

Ein siaradwraig wadd am y noson oedd Sara Gibson, Penrhyn-coch. Estynnodd Bethan groeso cynnes iddi. Soniodd am ei gyrfa fel newyddiadurwraig gyda'r BBC am dair mlynedd ar hugain, yr uchafbwyntiau a'r troeon trwstan. Ers iddi symud yn ol i'r ardal mae wedi mynd yn llawrydd ac yn canolbwyntio mwy ar straeon a newyddion lleol. Er y bydd yn gohebu Ar angladd y Frenhines ar ran y BBC.

Noson hwyliog a diddorol, Daeth y noson i ben efo paned a lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan Brenda a Gaenor. Mae'r gangen yn cwrdd ar ail Llun y mis ac mae croeso i aelodau newydd.

**Croeso**
Croeso i Caryl a Paul Lawrence sydd wedi symud o Gaerdydd i'w cartref newydd ym Mryncastell, i fod yn agos at Mary Thomas, mam Caryl, ym Mhenrhyn-coch.

**Capel y Garn**
Bore Sul, 2 Hydref, cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch i'r teulu yng Nghapel y Garn. dan arweiniad y Gweinidog, y Parch. Ddr Watcyn James, gyda nifer o'r aelodau yn cymryd rhan. Rhoddwyd sylw arbennig i 'Hadau Gobaith', sef apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru / Cymorth Cristnogol i godi arian i drigolion gwledydd sy'n dioddef oherwydd newid hinsawdd, gan ganolbwyntio ar Honduras. Cafwyd pos hwyliog am y wlad honno, a chyfeiriwyd at ein braint a'n dyletswydd ni i geisio sicrhau cyfiawnder hinsawdd i drigolion y gwledydd sy'n dioddef sychder neu lifogydd enbyd. Yn dilyn y gwasanaeth, mwynhawyd y gwmnïaeth a'r baned arferol yn y festri.

Daeth Cymdeithas y Chwiorydd ynghyd yn ôl ei harfer brynhawn Mercher cyntaf y mis am baned a chyfeillach. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Shân Hayward, ein hysgrifennydd ymroddgar, ar farwolaeth ei gŵr, Mike Hayward.

**Clwb Gwawr Y Pennau**

Nos Sadwrn 8 Hydref cynhaliodd Clwb Gwawr y Pennau ei noson agoriadol am y tymor yng Nghaffi Cletwr. Noson caws a gwin, cyfle am sgwrs a llunio rhaglen o weithgareddau. Roedd hi'n braf gweld nifer dda wedi dod, o ardaloedd gwahanol – Bow Street, Tal-y-bont, Tre'r-ddôl, Capel Bangor a mannau eraill. Roedd rhai'n nabod ei gilydd cynt, eraill ddim, felly roedd hi'n braf cyfarfod a sgwrsio â phobl newydd.

Buom yn rhoi'r byd yn ei le, roedd y caws yn flasus iawn a'r gwin yn hyfryd. Diolch i Gaffi Cletwr am gael cynnal y noson yno – lle gwych i gynnal digwyddiad. Roedd llu o syniadau gan bawb am nosweithiau posibl ar gyfer y tymor. Mae'n argoeli i fod yn flwyddyn dda gyda nifer o nosweithiau difyr ac amrywiol. Croeso mawr i aelodau newydd – os oes gennych chi ddiddordeb cysylltwch â Catrin ar catrin77@hotmail.co.uk



**Dewch am baned i Neuadd Rhydypennau!**

Ar fore Gwener, 7 Hydref, cynhaliwyd bore coffi cynta'r gaeaf yn y neuadd. Roedd yn hyfryd gweld bod criw o'r cylch wedi dod i sgwrsio a mwynhau paned a bisged am ddim. Mae croeso i bawb o bob oed i alw heibio rhwng 10 a hanner dydd bob bore Gwener yn ystod y gaeaf, a'r gobaith yw y bydd pobl yn manteisio ar y cyfle hwn i daro heibio am baned a sgwrs mewn man cynnes.

Mae'r neuadd wedi uno â chapeli Noddfa a'r Garn, ac eglwysi Llangorwen a Llanfihangel Genau'r-glyn, i gynnal y boreau hyn ac mae pwyllgor y neuadd – a phobl y pentref – yn ddiolchgar iawn i'r holl wirfoddolwyr am roi o'u hamser.

Diolch hefyd i siop Spar, Bow Street, am gyfrannu'r coffi ayb.



Hefyd, bydd darllenwyr Y Tincer wedi sylwi bod y neuadd wedi dod yn lle prysur iawn, gyda phob math o weithgareddau wedi ailgychwyn yno. Gyda'r gwelliannau sylweddol a wnaethpwyd iddi, mae nifer fawr yn dod i'r gweithgareddau – dosbarthiadau erobics, cadw'n heini, dawnsio o bob math, cyrsiau TG, ioga, sesiynau badminton, tennis bwrdd ... a llawer llawer mwy! Cofiwch edrych ar dudalen Facebook y neuadd am wybodaeth. Y gobaith yw y bydd gan y neuadd wefan yn fuan, lle bydd manylion yr holl ddigwyddiadau ar gael, a chadwch lygad ar Y Tincer hefyd am wybodaeth.

# DIRGELION AFON DYFI

Pan ofynnwyd i mi os hoffem wneud ffilm am un o afonydd Cymru, y Dyfi oedd y dewis amlwg. Roeddwn ni wedi gwneud ffilm am yr afon Tywi rhai blynyddoedd yn gynt, ond mae'r Dyfi yn gwbl wahanol. Mae'r ffilm yma yn dweud stori'r bywyd gwyllt, yr anifeiliaid a'r planhigion sydd yn byw o gwmpas yr afon. Creiglyn Dyfi, yng nghesail Aran Fawddwy, yw dechrau'r stori, ac wrth adael y mynydd mae'r Dyfi yn teithio am 30 o filltiroedd trwy amrywiaeth o gynefinoedd gwahanol sydd yn cynnig lloches a modd i fyw i fywyd gwyllt.

Roedd dod i nabod y Dyfi yn bleser ond yn her hefyd. Bu'n rhaid cysylltu â ffermwyr a thir feddianwyr i holi am ganiatâd i groesi tir er mwyn cael hawl i ffilmio. Fel arfer, byddwn wedi cnocio ar ddrysau pobl i gyflwyno fy hunan ac esbonio yr hyn roeddwn i am wneud. Ond yna ar ddechrau 2020 daeth Covid a dyna ddiwedd ar gnocio ar ddrysau. Troi at y ffôn wedyn a darganfod nifer o bobl hynaws a charedig oedd yn barod iawn i wrando ac yn hael iawn gyda'u caniatâd i grwydro ar y tir. Fe fues i'n aros yn yr ardal am wythnosau ar y tro yn codi gyda'r wawr ac yn cyrraedd yn ôl wedi iddi dywyllu er mwyn cael y cyfleodd gorau i ffilmio. Wrth i gysgod Covid godi fe ddes i'n gyfarwydd iawn gydag ardal Machynlleth a Borth, a chael cyfle i gwrdd â phobl wyneb yn wyneb o'r diwedd.

Mae dod o hyd i fywyd gwyllt ar gyfer ffilmio yn medru bod yn broblem, a rwy'n ddiolchgar iawn i nifer o bobl sy'n nabod yr ardal yn dda am ymddiried ynof i a dangos y llefydd mwyaf tebyg i ddod o hyd i wahanol rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion. Rwy'n ddiolchgar iawn i Emyr Evans a staff Canolfan Bywyd Gwyllt Dyfi sy'n le arbennig iawn i dreulio diwrnod hyd yn oed pan mae'r gweilch wedi gadael (rhaid i fi sôn am y cacennau arbennig iawn). Bu staff gwarchodfeydd Ynys Las ac Ynys Hir yn hael iawn ac yn amyneddgar iawn gyda'u hamser wrth helpu. Ond rhaid sôn hefyd am y ffermwyr a'u teuluoedd o Nant y Barcud ger Aran Fawddwy, Llanymawddwy, Dinas Mawddwy, Mallwyd, Aberangell a Llanwrin. Hefyd ffermwyr ardal Morben, Tre'r Ddol, Cwm Einion a llawer mwy.

Er taw bywyd gwyllt yw testun y ffilm rhaid cofio hefyd am y tirlun arbennig sy'n hebrwng yr afon o'r mynydd i'r môr. Aran Fawddwy a'r copäon o gwmpas, mynyddoedd Dinas Mawddwy a'r tir amaethyddol bras yn y dyffryn. Mae ardal y Dyfi yn un o ardaloedd hyfrytaf Cymru. Fe fu'n fraint cael gweithio yno a chael dod i nabod yr ardal a'r bobl. Fe fyddai'n siwr o dreulio llawer iawn mwy o amser ar lannau'r Dyfi yn y dyfodol i ymweld â'r afon a rhai o'r ffrindiau arbennig y gwnes i ar hyd y ffordd.

Rhaid i fi ddiolch i gwmni Telesgop am y gefnogaeth wrth wneud y ffilm ac i S4C am gynnig y cyfle yn y lle cyntaf. Mae'r ffilm yn cael ei ddarlledu ar S4C yn ystod yr hydref, ond ar ôl hynny cofiwch fynd draw at Clic neu BBC iPlayer.

**Richard Rees**
Cynhyrchydd 'Dirgelion Afon Dyfi'

WEST WALES
ANTIQUES
CAPEL BANGOR
Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!
Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau
www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com


# Capel Bangor /Pen-llwyn

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad fel ardal â Mr. a Mrs. Neil Laws, Dylan a Nia wrth iddynt golli tad a thad-cu annwyl iawn, Mr. Dan Davies, Bachyrhew, Rhydyfelin yn ddiweddar. Estynnwn yr un cydymdeimlad hefyd â Mrs. Doreen Davies a Lynne gan fod Dan yn frawd yng nghyfraith ac ewythr iddynt hwythau.

Roedd Dan neu fel yr adnabyddem ef, Dan Rhiwarthen, yn fab hynaf i Mr. a Mrs. James Davies, ond yn anffodus collodd ei dad pan yn grwt ysgol, a bu ef, ei frawd John a'i fam yn ffermio Rhiwarthen Uchaf am llawer blwyddyn.

Ar ôl priodi â Valmai Gwarallt, dechreuasant ffermio yn Bachyrhew a bu Sian ac Illtyd, eu plant yn gaffaeliad mawr i'r teulu. Daeth tristwch i'r aelwyd wrth i Valmai gael ei chymryd oddi arnynt dros ddeugain mlynedd yn ôl.

Roedd Dan yn ffermwr wrth reddf a byddai mynychu sioeau yn ystod yr haf yn rhan anatod o gwrs y flwyddyn iddo.

Cynhaliwyd ei angladd yng Nghapel Pen-llwyn ar Orffennaf 16eg a'r gwasanaeth yng ngofal Dr. Watcyn James. Cafwyd teyrnged haeddiannol iawn gan Mr. Dyfrig Siencyn, Dolgellau, a chwaraewyd yr organ gan Mrs. Catrin Evans.

**Gwellhad Buan**
Dymunwn wellhad buan iawn i Mrs. Cynthia Evans, Cwmwythig a gafodd lawdriniaeth ar ei phenglin yn ddiweddar. Hyderwn y byddwch yn medru symud yn ein plith yn ddiboen gyda hyn.

Hefyd dymunwn yn dda i Mrs. Eleanor Jones, Tangaer, a gafodd driniaeth i'w llygaid yn ddiweddar ond sydd nôl yn gyrru erbyn hyn ac yn gwella yn foddhaol.

**Merched y Wawr – Cangen Melindwr**
Amgueddfa Ceredigion yn Aberystwyth oedd cyrchfan aelodau'r gangen ar gyfer cyfarfod ym mis Hydref. I ddechrau clywsom ychydig am hanes yr adeilad gan Jez Danks, cyn- dechnegydd yn yr Amgueddfa. Ef hefyd oedd ein harweinydd yn ystod y prynhawn.

Tynnodd ein sylw at arteffactau a gredai a fyddai o ddiddordeb arbennig i'w gynulleidfa.

Roedd yn barod iawn i ateb unrhyw gwestiynau ac roedd ganddo stôr o atgofion a storïau i'w hadrodd. Treuliwyd orig ddiddorol yn yr amgueddfa.

Diolchodd Lynne Davies, ein llywydd i Jez Danks am roi o'i amser ac am rannu peth o'i

wybodaeth gyda ni. Diolchodd i Rita Jones, ein hysgrifenyddes am drefnu'r cyfarfod.

Treuliwyd gweddill y prynhawn yng nghaffi'r amgueddfa yn mwynhau cwpanaid a sgon yn ogystal â sgwrsio ymysg ein gilydd.

Pryd oedd y tro diwethaf i chi ymweld ag Amgueddfa Ceredigion? Beth am fynd yno y tro nesaf y byddwch yn Aberystwyth?

**Anne Elizabeth Mair Howells Glyn Dwylan, Capel Bangor**
Ganwyd Anne(Nan) yn Llwyn, Llanfihangel-y-Creuddyn yn unig blentyn i David a Elizabeth James yn 1931. Ar ol marwolaeth sydyn ei thad symudodd i Minafon,Capel Bangor gyda'i mam a'i thad-cu. Mynychodd Ysgol Ramadeg Ardwyn a phan yn 16 oed cael swydd gyda Bert Evans, y deintydd, Portland St, Aberystwyth fel nyrs ddeintyddol. Cael swydd wedyn fel teleffonydd yn Ysbyty Bron-glais, ar Heol y Gogledd a phan agorwyd yr ysbyty newydd symud yno a bu yn gweithio ar y ffonau am dros 30 o flynyddoedd cyn ymddeol.

Priodwyd yn 1953 i Ceredig o Bonterwyd a chafwyd 2 o blant sef Bethan a Huw. Roedd yn hoff iawn o drin blodau, coginio,gwnïo a gwau. Bu'n lywydd o Ferched y Wawr,cangen Melindwr am gyfnod. Trefnodd ambell i achlysur llwyddiannus i godi arian at elusennau yn yr ysbyty ac ar ran Merched y Wawr.

Cael ei hanrhydeddu yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd gan y Frenines yn 2015 am ei gwaith dros drideg mlynedd fel





## Dathliad Daucanmlwyddiant Ieuan Gwyllt

Nos Sul yr 2il o Hydref cynhaliwyd dathliad dau can mlynedd o fywyd Ieuan Gwyllt yng Nghapel Pen-llwyn. Croesawyd pawb i'r dathliad gan Dr. Watcyn James. Llywyddwyd y noson gan Lywydd yr Henaduriaeth, Mrs. Bronwen Morgan, Mrs. Margaret Daniel, Blaenanerch oedd yn arwain y canu yn ei ffordd ddi-hafal ei hun a Dr. Rhidian Griffiths yn ein goleuo wrth ein tywys o emyn i emyn, a'r hanes a'r cysylltiadau ar flaenau ei fysedd. Noson werth chweil a'r canu yn bersain wrth ymlwybro drwy emynau yr awdur talentog yma gyda Alan Wynne Jones yn canu'r organ mor ddeheuig. Dr. Watcyn James a draddododd y fendith ar ddiwedd y noson.

Cafwyd paned a chacen wedi eu paratoi gan wragedd yr eglwys i ddilyn a'r gymdeithas yn felys.



prif steward yn yr adran flodau. Ymfalchiodd yn fawr am hyn hyd at ei marwolaeth yn 90 oed yn Ysbyty Bron-glais ar Fedi'r 5ed eleni.

Cydymdeimlwn â'r plant, Bethan ac Emyr a Huw a Bethan a'r teulu ar farwolaeth eu mam a'u mam-gu.



**Aelodau Sefydliad y Merched Pen-llwyn yn mwynhau pryd amser cinio yng Nghrefftau Pennau, cyfle i cymdeithasu ac i edrych o amgylch y siop.**

## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cynhaliwyd cyfarfod Medi yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor o dan gadeiryddiaeth ein Cadeirydd y Cynghorydd Jim Palmer. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth pedwar cynghorydd.

Derbyniwyd munudau cyfarfod Gorffennaf fel rhai cywir.

Nodwyd bod y glaswellt oedd yn tyfu ar bont Rhiwarthen wedi cael ei glirio a bod yr arwydd wedi ei adnewyddu ym Mhantycrug.

Roedd un cais cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor sef A220556-Iard Cwm Nant; nid oedd gwrthwynebiad i'r cynnig o fynediad amaethyddol.

Cafwyd adroddiad o'r sefyllfa ariannol gan y clerc a nododd fod ail daliad y Praesept wedi ei dalu i'r cyfrif. Mae y Cyngor yn cael archwiliad llawn eleni ac mae y dogfennau angenrheidol wedi eu danfon I'r archwilydd allanol.

Cau ffordd dros dro Goginan (U1082). Gwaith I ddechrau ar 26/09/2022 am 4 wythnos rhwng 8yb a 5yh. Noder bod y brif ffordd A44 yn dal ar agor.  Noder fod yna yn dal un sedd wag ar y Cyngor; os oes rhywun a diddordeb cysylltwch a'r clerc neu un o'r Cynghorwyr am fanylion pellach

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau Hydref 20 am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor.

# Diolch

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn yn Neuadd Rhydypennau fore Sadwrn 10fed o Fedi. Roedd yn braf iawn gweld pobl lleol pentrefi cyfagos mas yn mwynhau paned, cacen a clonc, ac ennill ambell i wobr raffl. Codwyd £1800 ar y diwrnod. Diwrnod llwyddiannus eto dydd Sul y 9fed o Hydref, Taith tractorau er cof am Ken Hughes Troedrhiwgwynau. Dechre o Rydypennau am 10 gyda siwrne fach rownd y wlad. Rhydypennau, Bow St, Penrhyn-coch, Lan i Pen-cwm, lawr i Dal-y-bont, tre-Taliesin, Llancynfelyn , Ynys-las, y Borth, Clarach, yna nôl i Neuadd Rhydypennau am baned a bwyd, wedi ei baratoi gan Nia, gyda rhoddion wrth llawer un. Tynnwyd raffl, roedd yna 30 o wobrau. Codwyd £2101.05 ar y diwrnod, yn cynnwys Banc Barclays yn matcho £1 am £1. Hoffai Nia, ddiolch i bawb ddaeth ar y diwrnod, roddodd wobr, cacennau, ac arian. Hoffai Nia Gore ddiolch yn fawr i Deulu Brysgaga, am gael defnyddio'r cae, a Chlwb Pêl Droed Bow St. Hefyd Pwyllgor Neuadd Rhydypennau. Hoffai ddiolch o galon i bawb sy'n cefnogi ei gwaith codi arian. (A diolch ar ein rhan ni i Nia)







GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

Trydan
WILL DAVEY
Electrical & AV
- Gosodiad Trydanol Ardystiedig
- CCTV a AV
- Arolygu & Phrofi
- Pŵeru cerbydau trydan
- Gosod PV solar
GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE
07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Ysgol **Rhydypennau**

**Ymweliad**

I gyd fynd gyda'u thema y tymor hwn, cludwyd hanner cant o blant blwyddyn 5 a 6 ar fws i Fwynglawdd Llywernog ar y 27ain o Fedi gyda'r bwriad o ddysgu am fwyngloddio a bywyd y mwyngloddwyr ddwy ganrif yn ôl. Yn ystod yr ymweliad cafodd y plant brofiadau gwych o dreulio amser dan ddaear i ddefnyddio padellau i ganfod aur a gemau gwerthfawr.

Diolch yn fawr i staff 'The Silver Mine Experience' am eu cymorth wrth drefnu'r ymweliad ac yn ystod y gweithgareddau difyr ar y diwrnod.

**Beicio**

Mae plant blwyddyn 6 wedi dechrau sesiynau beicio i wella eu gwybodaeth o ddiogelwch ar y ffordd. Dros yr wythnosau nesaf, mi fyddant yn treulio cyfnodau o hyfforddiant dan arweiniad Mr Grahame Marsh i wella sgiliau penodol wrth feicio ar y ffordd fawr.

**Creu Cwpled**

Ar y 10fed o Hydref ymunodd plant blwyddyn 6 gyda thrideg wyth o ysgolion eraill y Sir i fwynhau cyfarfod rhithiol yng nghwmni'r Prifardd Ceri Wyn Jones. Bwriad y sesiwn oedd gosod tasg i bob ysgol greu cwpled er mwyn cyfansoddi cerdd derfynol i gefnogi pêl droedwyr Cymru yng Nghwpan Y Byd sy'n dechrau fis nesaf yn Qatâr. Gobeithio cynnal perfformiad o'r gerdd orffenedig cyn hir!

**Cynhaeaf**

Yn ddiweddar bu plant yr uned feithrin yn cynaeafu ffrwyth perllan yr ysgol er mwyn creu crymbl afal i goginio a blasu yn y dosbarth. Pleser oedd gweld wynebau'r plant yn mwynhau'r pwdin blasus!

**Diolchgarwch**

Eleni, mi fyddwn ni'n cynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Noddfa ar 27ain o Hydref. Dyma'r tro cyntaf i ni fedru cynnal ein gwasanaeth oddi ar dir yr ysgol ers 2019.














*Cyfarwyddwyr Angladdau*

***C. T. Evans***

***Perchnogion : Gwyn & Janet Evans***
***Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS***

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nos.*

***Ffôn 01970 820013***
***ebost : gwyn@ ct-evans.com***

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**

Perchennog: Laurence Kelly

**AR AGOR**
**Llun – Sadwrn**
**7 y bore – 9 yr hwyr**
**Sul**
**7 y bore – 7 yr hwyr**

**Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig**

**01970 828312**

# Ysgol **Craig yr Wylfa**

**Sioe Sbridiri**
Mae'r plant lleiaf wrth eu boddau'n cael mynd ar drip! Y tro yma aethant i Ysgol Penweddig i weld sioe hwyliog a chyffrous gan griw Sbridiri. Mae'n amlwg bod pawb wedi cael amser gwych. Diolch yn fawr i'r Urdd am drefnu.

**Gwibdeithiau**
Yn ystod y mis aeth yr ysgol gyfan i ymweld â safle RSPB yn Ynys-hir. Er gwaethaf y tywydd gwlyb ac oer, roedd digon o weithgareddau difyr i gadw pawb yn brysur. Roedd y plant wrth eu boddau'n dysgu ffeithiau wrth edrych ar drychfilod, adar, coed a dail. Diolch o galon i Jenny a Monica am y croeso ac am drefnu'r tasgau diddorol. Roedd pawb wedi mwynhau.

**Cerddoriaeth**
Gobeithio bod ardal y Borth gyfan wedi clywed y seiniau hyfryd ddaeth o'r ysgol yn ystod y mis pan ddaeth Caryl o fudiad yr Urdd draw atom i gyflwyno'r delyn i'r plant. Diolch yn fawr Caryl, roedd hi'n weithgaredd gwahanol a diddorol.

**Amgueddfa Gorsaf y Borth**
Wedi 3000 mlynedd daeth y cyrn ceirw hynafol yn ôl i'r Borth. Cafodd yr ysgol gyfle arbennig i fynd i weld y cyrn yn Amgueddfa Gorsaf y Borth ac roedd hi'n hyfryd i gael ymweld â'r hen orsaf am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn.

**Ysgol y Gymuned**
Ar fore dydd Llun, Medi 26, cynhaliwyd bore coffi i godi arian i elusen Macmillan yn yr ysgol. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r staff am ddarparu gwledd o gacennau ac am weini'r bwyd a diolch o galon i bawb a ddaeth i'r ysgol. Codwyd dros £60 i'r elusen bwysig yma – gwych!

**Chwarae**
Mae pob ymchwil yn dangos fod plant yn dysgu cymaint wrth chwarae ac wrth drafod gyda plant yr ysgol rydym wedi gwella ar ddarpariaeth amser chwarae wrth gyflwyno offer ar gyfer cyd-chwarae. Bellach mae'r gegin allanol ac offer creu deniau'n rhan allweddol o'r chwarae ac mae'r plant wrth eu boddau'n defnyddio eu dychymyg bob egwyl.

**Cydweithio**
Mae plant Blwyddyn 6 wedi bod yn cynnal llawer o weithgareddau i groesawu'r plant newydd i'r ysgol yn ystod y mis a'u gwneud i deimlo'n gartrefol gyda ni. Diolch yn fawr am fynd i chwarae gyda'r plant ac am drefnu gweithgareddau cyffrous.



















*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
*Ar agor*
*Llun-Sadwrn*
*10.00-5.00*
Brecwast
ar gael
01970 820 050
Pennau

# Ysgol Pen-llwyn

**Croeso**
Ar ddechrau'r tymor newydd rhaid estyn croeso I sawl un I deulu'r Ysgol… Croeso I Leisia sydd newydd gychwyn yn nosbarth1, i Mrs Lowri Emlyn sydd yn arwain ein grwpiau darllen, i Miss Meleri Jenkins sydd yn dysgu ar draws y ddau dosbarth. Gobeithio byddwch yn hapus yn ein plith.







**Amser stori**
Mae'r ddau dosbarth wedi cael llawer o hwyl yn dysgu drwy storïau difyr-Dosbarth 1 wedi dysgu 'Yr iar fach goch' ac wedi dysgu llawer am sut i wneud toes, y broses o greu blawd, creu Popty chwarae rôl yn y dosbarth a gosod Bydbach i'r cymeriadau o'r stori. Mae'r plant hyn wedi dysgu stori 'Y Samariaid Trugarog' ac yn medru cyd lefaru'r stori yn gampus!

**Ardal allanol**
Mae'r ddau dosbarth wedi gweld newid tu allan hefyd-dosbarth 2 wedi cael Llecyn allanol hyfryd-lle I gynnal gweithgareddau ymarferol ac mae dosbarth 1 wedi cael patio hyfryd-lle sych I fedru bod allan ymhob tywydd!

**Tim Pêl droed Goginan**
Sawl blwyddyn yn ol sefydlwyd tîm pêl droed Goginan - erbyn hyn does dim tim ond roedd ganddyn nhw arian yn weddill. Yn garedig iawn maent wedi cyfrannu £900 i'r Ysgol er mwyn i'r plant gael el wario ar adnoddau newydd! Diolch o galon am eich haelioni-roedd y plant wrth eu boddau yn derbyn y rhodd.

**Ar y Cyd**
Cafodd y ddwy Ysgol weithdy hyfryd gan Caryl Griffiths, swyddog yr Urdd, ar sut i chwarae'r delyn-mwynheuodd pawb!






**R.J Edwards a'i Fab**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân

01970 820149

RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

**Gwe Cambrian Web**
Cwmni lleol o Aberystwyth sydd yn creu gwefannau dwyieithog a gwasanaethau marchnata digidol ar gyfer busnesau bach a mudiadau.

Cysylltwch heddiw!

Gwe Cambrian Web




cambrianweb.com | 01970 623 906 | info@cambrianweb.com | @gwecambrianweb

# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Croeso cynnes**
Croeso cynnes mawr i'r canlynol, yn blant, staff a myfyrwyr, i'n teulu mawr :
Nanw, Eve, Alaw, Ania, Jac, Maia, Dion, Lacey-Mae, Cai, Mrs. Emma Parr-Davies, Ms. Fflur Edwards, Ms. Glesni Thomas, Ms. Becky James, Mrs. Lowri Emlyn, Mrs. Ellyw Haf Lloyd a Miss. Seren Jenkins. Croeso nôl i Miss. Rhian Cory a Mrs. Fflur Jones sy'n dychwelyd atom ar ôl eu cyfnodau mamolaeth.

**Tractorau yn yr ysgol cyn y taith tractorau**
Daeth plant y Cyfnod Sylfaen mewn â'u tractorau i'r ysgol ar brynhawn Gwener 16eg i wneud yn siwr fod y buarth yn addas ar gyfer y tractorau mawr oedd ar eu ffordd ar y dydd Sul! Roedden nhw wedi cael llawer o hwyl a sbri.

**Taith Tractorau**
Braf oedd gweld cymaint o'r ysgol a'r gymuned yn cefnogi ein Taith Tractorau eleni – diolch i chi am ddod. Codwyd £1500! Diolch o galon i Lynwen Jenkins ac Alun Trawsnant am drefnu, rydym yn gwerthfawrogi eich gwaith caled a'ch hymdrechion.

**Garej – CS prynu cynhwysion ar gyfer pobi cacen arbennig**
Aeth plant y Dosbarth Derbyn draw i Garej Ty Mawr i brynu cynhwysion ar gyfer pobi cacen arbennig iawn. (Pen blwydd hapus arbennig iawn i Miss. Cory! Cacen i'w chofio!)

**Chwarae Rôl**
Tra oedd plant y Dosbarth Derbyn wrthi yn coginio bu plant Blwyddyn 1 a 2 yn chwarae rôl ym Mhopty y Dosbarth yn dynwared coginio a gwerthu bara, cacennau a 'doughnuts'. Pobyddion y dyfodol!

**Gerddi'r Eglwys**
Bu plant y Dosbarth Derbyn am dro i erddi'r Eglwys i weld Elsi a Delyth. Diolch i chi am y sgwrs.

**Wythnos Codio – crwban ar jit 5 a beebot**
I ddathlu wythnos codio eleni fe fu Blwyddyn 1 a 2 yn brysur yn rheoli crwban ar JiT5 a Beebot. Da iawn chi blant am eu rheoli a'u gwneud i symud.

**Straeon ar ffurf Pie Corbett**
Y mae pob dosbarth wedi bod yn brysur iawn yn dysgu straeon ar ffurf Pie Corbett y tymor yma.

Dysgwyd y stori 'Yr Iâr Fach Goch' yn y Cyfnod Sylfaen a 'Y Samariad Trugarog' yng Nghyfnod Allweddol 2. Y cam nesaf i ni gyd yw i addasu'r straeon er mwyn rhoi perspectif modern iddynt.













**Cynghorau**
Da iawn i'r disgyblion a gafodd eu hethol i gynghorau'r ysgol. Yr ydym yn edrych ymlaen i wrando ar eich syniadau ac i weld pa weithgareddau fydd gennych chi ar ein cyfer yn ystod y flwyddyn ysgol yma.
Cyngor Ysgol - Jasmine, Gruff, Nathan, Iona, Cole, Isla-Rose, Lilah, Liam a Nia.
Cymry i'r Carn - Seren, Caio, Jac, Chanel, Iona, Mabli, Ned, Florence, Siôn a Lleucu.
Dewiniaid Digidol - Gruff, Seren, Jac, Harry, Alfie, Harry, Poppy ac Ywain.
Plant Gwyrdd Eco - Kyle, Gabriel, Elis, Osian, Alisha, Milly, Isla, Nico a Gwenno.
Llysgenhadon Efydd Chwaraeon - Gruff, Seren, Twm a Sofie.
Llyfrgellwyr - Gruff, Harrison, Sofie ac Eleri.
Garddwyr - Twm, Mya, Elis a George.

# Tasg y Tincer

Mae'r hydref wedi cyrraedd yn sydyn iawn, a'r coed ar eu gorau. Ydech chi wedi bod am dro i goedwig Gogerddan y mis hwn, a gweld y pentyrrau o ddail ar lawr? Dwi'n hoffi eu clywed yn crinsh-cransh-crensian o dan fy sgidiau, neu'n eu gwylio'n hedfan o'r canghennau pan ddaw'r awel heibio, fel dawnswyr. Ond falle fod draenog yn gaeafgysgu o dan y dail, felly gwyliwch eich camau a pheidiwch â bod yn rhy swnllyd!

Da iawn ti, **Jack Herron**, o Bow Street, am liwio'r llun y mis diwetha – rwyt ti'n haeddu'r wobr gyntaf, a diolch am dy waith lliwgar.



Jack

Ydech chi wrthi'n paratoi at Galan Gaeaf a noson Guto Ffowc? Roedd hi'n ddiwrnod pwysig iawn ar 11 Hydref, sef diwrnod pen-blwydd yr awdur a'r bardd T. Llew Jones. Dyma bennill o un o'i gerddi hyfryd, 'Dawns y Dail':

> Fe waeddodd gwynt yr hydref,
> Mae'n waeddwr heb ei ail,
> "Dewch i sgwâr y pentre i gyd
> I weled dawns y dail."



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Beth am i chi ddod o hyd i weddill y gerdd? Yn y gwyliau hanner tymor, ewch am dro i hel ambell ddeilen – a cheisio darganfod i ba goeden mae'n perthyn. Tipyn o gamp! Bydd edrych ar y we neu mewn llyfr yn help. Cofiwch ddefnyddio holl liwiau tymor yr hydref yn y llun y tro hwn. Ydech chi'n medru gweld y madarch a'r caws llyffant yn y llun? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Tachwedd. Ta ta tan toc!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009 >

*Rhif 452 | Hydref 2022*